Gweinyddiaeth CYFIAWNDER

Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr

# Bwriadau Comisiynu NOMS

O 2014

# Rheoli Fersiynau'r Ddogfen

Cyfrifoldeb darllenwyr y ddogfen hon yw sicrhau y defnyddir y fersiwn mwyaf diweddar o'r ddogfen hon. Mae hwn ar gael yn: **www.justice.gov.uk/about/noms/commissioning**

| Tabl Rheoli Fersiynau | | |
|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Rheswm am Gyhoeddi / Newidiadau** | **Dyddiad** |
| P1.0 | Cyhoeddiad cyntaf. | 14.10.2013 |

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'i dogfen gymar, *Tystiolaeth a Segmentu NOMS*: **www.justice.gov.uk/about/noms/commissioning/evidence-based-commissioning**.

Mae'r ddogfen *Tystiolaeth a Segmentu NOMS* yn darparu tystiolaeth gefndirol i helpu darparwyr a chomisiynwyr benderfynu ar y dewis o werth gorau a mwyaf effeithiol a thargedu gwasanaethau, a allai gefnogi'r gwaith o gyflenwi bwriadau comisiynu yn effeithlon a chost effeithiol.

# Rhagair



Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y gwasanaethau troseddwyr mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) yn eu comisiynu er mwyn cyflenwi ein cyfrifoldebau fel Asiantaeth ac yn unol â pholisi'r Llywodraeth. Mae'n darparu'r sail ar gyfer trafodaeth â darparwyr gwasanaethau troseddwyr yn ogystal ag unioni ein blaenoriaethau â phartneriaid cyd-gomisiynu allweddol mewn adrannau llywodraethol eraill, eu hasiantaethau a Llywodraeth Cymru.


Rwyf yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygu ein bwriadau a'n gweithgareddau comisiynu, un ai trwy ymatebion i'n ceisiadau am adborth neu drwy ddeialog parhaus â ni.

Mae'r ddogfen hon yn adeiladu ar fwriadau comisiynu NOMS ar gyfer 2013-14. Tra bydd ein blaenoriaethau comisiynu cyffredinol yn parhau'n gyson tros y blynyddoedd a ddaw, rydym yn gweithredu diwygiadau yn gyflym er mwyn cyflenwi system gyfiawnder wedi ei gweddnewid lle mae cosb briodol yn mynd law yn llaw ag ailsefydlu effeithiol. Ar 19 Medi 2013, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y Model Gweithredu Targed[1] ar gyfer y diwygiadau Trawsnewid Ailsefydlu, gan ddisgrifio mewn mwy o fanylion sut y cyflenwir gwasanaethau prawf yn y dyfodol gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) newydd a 21 Cwmni Ailsefydlu Cymunedol (CRCau) a fydd yn cyflenwi gwasanaethau ailsefydlu yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu trawsnewid y ffordd y rheolir troseddwyr yn y gymuned er mwyn dod â chyfraddau aildroseddu i lawr a bydd yn agor y farchnad i ystod amrywiol o ddarparwyr ailsefydlu newydd, wedi eu hysgogi gan daliad trwy ganlyniadau, wrth iddynt sicrhau bod diogelwch y cyhoedd yn parhau'n hollbwysig. Mae NOMS wedi penodi dau Gyfarwyddwr newydd - y Cyfarwyddwr Prawf a Chyfarwyddwr Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr Cymru - a fydd yn chwarae rolau arweiniol wrth weithredu'r diwygiadau ailsefydlu.

I ddarparwyr cymunedol, bydd y flwyddyn nesaf yn un o drawsnewid a newid sylweddol. Yn ystod y cyfnod trosiannol, ein blaenoriaeth comisiynu fydd parhau i gyflenwi gwasanaeth fel y cytunwyd ar gyfer 2013-14 cyn belled â bod hyn yn ymarferol a sicrhau paratoad effeithiol ar gyfer y trawsnewid o wasanaethau i ddarparwyr eraill. Bydd sialensiau o ran parhau i gyflenwi gwasanaethau, ond byddwn yn sicrhau bod y ffocws cryf ar ddiogelu'r cyhoedd yn parhau.

Ar gyfer carchardai, rydym yn canolbwyntio ar sicrhau cost-effeithiolrwydd ar draws y system gyda darpariaeth sector cyhoeddus cryf ac ymarferol yn gweithio ochr yn ochr â darpariaeth fwy a mwy amrywiol a gyflenwir gan bartneriaid yn y sectorau preifat, gwirfoddol a'r trydydd sector. Mae Atodiad A y ddogfen hon yn darparu'r sail ar gyfer trafodaethau a fydd yn arwain at Gytundebau Lefel Gwasanaeth newydd a chontractau wedi eu hadnewyddu ar gyfer carchardai, yn dechrau o Ebrill 2014.

Rwyf yn edrych ymlaen at ymgysylltu â chi i sicrhau ein bod yn parhau i gael ein dewisiadau comisiynu'n iawn er mwyn cyflenwi gwell canlyniadau am lai o arian.



**IAN BLAKEMAN**

Cyfarwyddwr Comisiynu

[1] Mae mwy o wybodaeth ar gael yn http://www.justice.gov.uk/downloads/rehab-prog/competition/target-operating-model.pdf

# Cynnwys

**Rhagymadrodd** ....... 4
- Gwasanaethau wedi eu Cydgomisiynu ....... 5
- Gwasanaethau yn y Gymuned ....... 5
- Gwasanaethau Carcharol ....... 5
- Cyd-weithio â Llywodraeth Cymru ....... 6

**Cyd-destun Polisi ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau** ....... 7

**Bwriadau Comisiynu** ....... 10
- Rhagymadrodd ....... 10
- Disgwyliadau NOMS gan Ddarparwyr ....... 12
- Cymunedol ....... 19
- C. Gofynion Cyflawni ar gyfer 2014-15 ....... 42
  - Gofynion Cyflawni Gwasanaeth Cymunedol 2014-15 ....... 42
  - Gofynion Cyflenwi Gwasanaethau yn y Ddalfa 2014-15 ....... 44
- D. Bwriadau Comisiynu NOMS ar gyfer 2013-14 ....... 47

# Rhagymadrodd

## Am y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr

Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) yn Asiantaeth Weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ). Ei bwrpas yw diogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu trwy gyflenwi cosb a gorchmynion y llys a chefnogi ailsefydlu trwy helpu troseddwyr i ddiwygio'u bywydau. Mae NOMS yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau troseddwyr mewn oed, yn y carchar ac yn y gymuned, yng Nghymru a Lloegr. Yn ychwanegol, mae'r Asiantaeth yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau carcharol yn uniongyrchol ac o dan gontract i Adrannau eraill y Llywodraeth drwy wasanaeth carchardai'r sector cyhoeddus[2]. Mae gan yr Asiantaeth gyllideb flynyddol o £3.4 biliwn[3], ar gyfer gwasanaethau penodol a ddarperir ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol sydd wedi eu nodi mewn statud[4]. Mae NOMS yn cadw'r cyhoedd yn ddiogel trwy sicrhau bod troseddwyr, o dan amodau diogel a sicr, yn ymgymryd â chosb y llysoedd trwy ddedfrydau carcharol neu gymunedol a gyflenwir gan garchardai a darparwyr prawf.

## Am Gomisiynu a Chydgomisiynu Gwasanaethau Troseddwyr

Mae NOMS wedi ymrwymo i gomisiynu i sicrhau canlyniadau gwell i leihau aildroseddu a diogelu'r cyhoedd, ac i sicrhau'r gwerth gorau am arian i'r trethdalwr trwy wneud y defnydd gorau o bob adnodd sydd ar gael. Mae comisiynu'n disgrifio'r cylch o gynllunio a sicrhau gwasanaethau i wireddu canlyniadau angenrheidiol. Mae comisiynu NOMS yn cynnwys asesu'r angen a'r galw am wasanaethau gan droseddwyr, diffynyddion, llysoedd, dioddefwyr a chymunedau; gan wneud dewisiadau ynghylch sut i ddiwallu'r anghenion hynny a sicrhau'r gwasanaethau priodol sy'n iawn o ran ansawdd a phris; ac adolygu'r dull o'u cyflenwi a'u heffeithiolrwydd wrth ddiwallu'r anghenion hynny. Mae comisiynu NOMS yn ymwneud â sicrhau bod gwasanaethau wedi eu dylunio o amgylch gwella canlyniadau o safbwynt system gyfan gyda'r comisiynwyr yn canolbwyntio ar wasanaethau sy'n diwallu anghenion troseddwyr, diffynyddion, dioddefwyr a'r llysoedd trwy nodi *pa* wasanaethau maent eu hangen, o *ba* ansawdd ac *am faint* o gost, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddarparwyr gwasanaethau, *sut y* cyflenwir gwasanaethau a chan *bwy*.

**Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'i dogfen gymar, *Tystiolaeth a Segmentu NOMS*:** www.justice.gov.uk/about/noms/commissioning/evidence-based-commissioning. Mae'r ddogfen *Tystiolaeth a Segmentu NOMS* yn darparu gwybodaeth gefndirol a thystiolaeth i helpu darparwyr a chomisiynwyr benderfynu ar y dewis o werth gorau a thargedu gwasanaethau, wedi ei gysylltu'n uniongyrchol â chyflenwi'r bwriadau comisiynu.

[2] Nid yw'r ddogfen hon yn trafod gwasanaethau a gomisiynir gan Wasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Swyddfa Gartref, oherwydd yn yr achosion hyn NOMS yw'r darparwr ac nid y corff comisiynu.

[3] Ar sail cyllideb 2013-14.

[4] Deddf Rheoli Troseddwyr 2007 a Deddf Carchardai 1952 (Diwygiedig)

Mae mwy o wybodaeth am gomisiynu gwasanaethau troseddwyr NOMS ar gael ar dudalennau comisiynu NOMS ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder: www.justice.gov.uk/about/noms/commissioning <http://www.justice.gov.uk/about/noms/commissioning>.

Gellir canfod mwy o wybodaeth am y diwygiadau ailsefydlu yn: www.justice.gov.uk/transforming-rehabilitation.

## Gwasanaethau wedi eu Cydgomisiynu

Bydd cydgomisiynu'n digwydd lle mae dau neu fwy o gomisiynwyr gwasanaethau'n cyfuno eu blaenoriaethau gan gadw'r cyfrifoldeb dros eu hadnoddau eu hunain. Mae NOMS yn cydgomisiynu gwasanaethau sy'n werth mwy nag £1 biliwn ac mae'r rhain yn chwarae rôl hanfodol mewn cyflawni nodau, yn arbennig ailsefydlu troseddwyr. Drwy gysoni ein blaenoriaethau a'n hadnoddau trwy gydol y cylch comisiynu, yn genedlaethol ac yn lleol â'r rheini sydd gan ystod eang o gyllidwyr eraill, a chan hybu perthnasau cefnogol rhwng darparwyr gwasanaethau, rydym yn gallu sicrhau ein bod gyda'n gilydd yn cefnogi canlyniadau gwell i gymunedau, unigolion a'u teuluoedd.

## Gwasanaethau yn y Gymuned

Mae NOMS yn comisiynu gwerth tua £1 biliwn o wasanaethau bob blwyddyn ar gyfer troseddwyr yn y gymuned, er mwyn diogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu trwy gyflenwi dedfrydau a gorchmynion y llysoedd.

Mae pennod Cyd-destun Polisi'r ddogfen hon yn pwysleisio rhai diwygiadau allweddol a fydd yn arwain at newidiadau sylweddol dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod, gan gynnwys cyflwyno darparwyr cymunedol newydd o dan y diwygiadau ailsefydlu. Mae parhad cyflenwi gwasanaeth priodol yn ystod y trawsnewid i ddarparwyr newydd yn hanfodol bwysig, a'n blaenoriaeth comisiynu ar gyfer darparwyr cymunedol o Ebrill 2014 a thrwy gydol y cyfnod trosiannol fydd parhau i gyflenwi'r bwriadau a osodwyd ar gyfer 2013-14 cyn belled ag y bo hyn yn ymarferol. Mae Atodiad D yn rhestru ein bwriadau comisiynu ar gyfer 2013-14 er gwybodaeth. Yn ystod y cyfnod trosiannol disgwylir i ddarparwyr cymunedol hefyd sicrhau bod y gwasanaethau yn trawsnewid yn effeithiol i ddarparwyr newydd a chyflenwi unrhyw ofynion eraill o dan y rhaglen ailsefydlu lle bo'u hangen er mwyn ateb y disgwyliad hwn.

## Gwasanaethau Carcharol

Mae NOMS yn comisiynu gwasanaethau gwerth dros £2 biliwn ar gyfer carchardai a'r Gwasanaeth Hebrwng a Chaethiwo Carcharorion (PECS) oddi wrth ystod amrywiol o ddarparwyr, er mwyn cyflawni ein rolau craidd o ddiogelu'r cyhoedd trwy gadw carcharorion mewn carchardai diogel, cyfreithlon a gweddus, gweinyddu dedfrydau a gorchmynion y llysoedd yn effeithiol, a gweithio i leihau aildroseddu.

Fel uchod, mae pennod Cyd-destun Polisi'r ddogfen hon yn pwysleisio newidiadau diweddar i'r tirlun oddi mewn i'r hwn mae NOMS yn comisiynu gwasanaethau troseddwyr yn y carchar ac yn arbennig, y ffordd rydym yn comisiynu carchardai sector cyhoeddus. Yn bennaf ymysg y rhain oedd cyhoeddiad yr

Ysgrifennydd Gwlad yn Nhachwedd 2012 am newidiadau i'r rhaglen cystadleuaeth ymysg carchardai[5]. Mae hon yn golygu bod y sector cyhoeddus yn cadw cyfrifoldeb uniongyrchol am gyflenwi'r dyletswyddau carcharol craidd ar gost llawer is trwy gyflwyno meincnod gweithredu newydd ar draws pob carchar sector cyhoeddus; a gwasanaethau ategol ac ailsefydlu 'trwy'r porth' sy'n cystadlu â'i gilydd.

Mae comisiynwyr a darparwyr carchardai wedi gweithio'n glòs â'i gilydd i ddysgu gwersi o'r cylch comisiynu ar gyfer 2013-14 ac yng ngoleuni'r rhain, gwnaethpwyd nifer o newidiadau i'n trefniadau comisiynu. Maent yn cynnwys cyflwyno Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda charchardai sector cyhoeddus dros gyfnod o dair blynedd. Bydd comisiynwyr a rheolwyr yn parhau i weithio â charchardai a reolir yn breifat i adeiladu ar y gwaith sy'n ymwneud â segmentu a chyflwyno ymyriadau a ddatblygwyd yn ystod 2013-14.

## Cyd-weithio â Llywodraeth Cymru

Mae'r ddogfen hon yn cydnabod y cysylltiadau nodedig sy'n codi o gyfrifoldebau datganoledig Llywodraeth Cymru. Mae NOMS yn comisiynu gwasanaethau i droseddwyr yn uniongyrchol, sy'n costio tua £140 miliwn[6] yng Nghymru. Er bod gan NOMS gyfrifoldeb uniongyrchol, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, am gomisiynu gwasanaethau carcharol a phrawf yng Nghymru, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru yn atebol am ystod eang o gyfrifoldebau wedi eu datganoli sy'n cyfrannu at ailsefydlu troseddwyr . Mae'r rhain yn cynnwys iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, dysgu a sgiliau, tai a llywodraeth leol[7].

Bydd NOMS yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ein meysydd cyfrifoldeb (wedi eu datganoli a heb eu datganoli) yn cael eu halinio er mwyn cael y budd a'r lles mwyaf posibl i bobl yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod NOMS yn integreiddio ei ddull o gomisiynu yng Nghymru â Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i gyflenwi canlyniadau a rennir i leihau ymddygiad troseddol, cefnogi dioddefwyr, gwella canlyniadau i droseddwyr, eu teuluoedd a chymunedau yng Nghymru. Rydym yn gweithio i wella canlyniadau ailsefydlu ar gyfer carcharorion o Gymru sydd mewn carchar yn Lloegr. Mae ffocws arbennig mewn perthynas ag adsefydlu merched sy'n troseddu ac ailsefydlu merched yn ôl i'w cymunedau yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod bod rhan bwysig o helpu i leihau ymddygiad troseddol ac integreiddio troseddwyr yn ôl i'w cymunedau yn gofyn am i ystod o faterion gael eu trin ar y cyd ar draws y ddwy lywodraeth. I gydnabod pwysigrwydd ein perthynas â Llywodraeth Cymru, rydym wedi gwneud apwyntiad ar lefel y Bwrdd, sef Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr Cymru o Ebrill 2014. Bydd y Cyfarwyddwr hwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r rhaglen adsefydlu yng nghyd-destun penodol Cymru. Bydd gan y Cyfarwyddwr hefyd gyfrifoldeb cyffredinol am arwain a rheoli'r gwaith o gyflenwi'r gwasanaethau carcharol a phrawf yng Nghymru ac integreiddio'r system ar

[5] www.publications.parliament.uk/pa/cm201213/cmhansrd/cm121108/wmstext/121108m0001.htm#12110865000045
[6] Ar sail cyllidebau 2013-14.
[7] Gweler: http://wales.gov.uk/ am fwy o wybodaeth am gyfriofoldebau wedi eu datganoli.

gyfer rheoli troseddwyr. Mae hyn yn cynnwys adnabod cyfleoedd comisiynu a chaffael ar y cyd er mwyn cyflawni mwy am lai ac adeiladu cymunedau diogel yng Nghymru.

### Am y ddogfen Bwriadau Comisiynu NOMS

Mae'r ddogfen hon, a'r ddogfen gymar *Tystiolaeth a Segmentu NOMS*, wedi elwa ar broses helaeth o ddysgu gwersi'n fewnol a thros 40 o ymatebion gan ddarparwyr a rhanddeiliaid i'n cais am adborth ym Mai 2013. Mae'r cyfraniadau a dderbyniwyd, oddi wrth ymddiriedolaethau prawf, carchardai sector cyhoeddus a charchardai a reolir yn breifat; darparwyr cyhoeddus, preifat ac eraill, elusennau, Adrannau eraill o'r Llywodraeth ac ymgynghorwyr annibynnol wedi cyfrannu gwybodaeth at y broses o ddatblygu a rhoi gwedd derfynol ar ein blaenoriaethau comisiynu o 2014.

Bydd copïau o'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Gymraeg.

# Cyd-destun Polisi ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau

Mae Cynllun Busnes 2013 y Weinyddiaeth Gyfiawnder[8] yn cyflwyno sut bydd yr adran yn gweithredu polisïau'r Llywodraeth Glymblaid i ddiwygio'r system gyfiawnder. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys trawsnewid ailsefydlu i leihau aildroseddu a gwell gwerth am arian wrth gyflenwi gwasanaethau prawf; gwneud y system warchodol a dedfrydu yn fwy effeithlon a chost-effeithiol; trawsnewid cadw ieuenctid yn y ddalfa; gwella'r ffordd mae llysoedd a thribiwnlysoedd yn gweithredu a lleihau cost cymorth cyfreithiol.

Blaenoriaeth NOMS yw diogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu drwy gyflenwi'r gosb a gorchmynion y llysoedd a chefnogi adsefydlu drwy helpu troseddwyr i ddiwygio'u bywydau. Rydym yn cyflawni hyn drwy gyflenwi ein gwasanaethau gweithredol allweddol a rheoli'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau troseddwyr ar draws y system yng Nghymru a Lloegr. O fewn y cyd-destun hwn, mae NOMS yn canolbwyntio ar gyflawni'r nodau polisi hyn drwy wneud y system warchodol yn fwy effeithlon a chost-effeithiol a gweithredu'r diwygiadau adsefydlu.

Mae ein diwygiadau i'r ffordd rydym yn adsefydlu troseddwyr yn cynnwys:

- agor y farchnad i ystod amrywiol o ddarparwyr adsefydlu newydd, wedi eu hysgogi gan daliad trwy ganlyniadau i leihau aildroseddu;
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) sector cyhoeddus newydd a fydd yn rhan o NOMS;
- ymestyn arolygaeth ar ôl rhyddhau i bron pob troseddwr ar ôl gadael y carchar; a
- gwasanaeth ailsefydlu "trwy borth y carchar" newydd ar draws Cymru a Lloegr.

Unwaith y gweithredir y diwygiadau'n llawn, bydd 21 Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRCau), gyda phob un yn darparu gwasanaethau yn ei Ardal Pecyn Contract (CPA). Bydd CRCau yn rheoli'r mwyafrif o droseddwyr yn y gymuned a ddedfrydwyd i Orchmynion Cymunedol (COau), Gorchmynion Dedfrydau Gohiriedig (SSOau) a'r

[8] http://transparency.number10.gov.uk/business-plan/14

rhai sy'n ddarostyngedig i amodau trwydded neu ofynion arolygu a byddant yn cynnig cefnogaeth adsefydlu arloesol i droseddwyr. Bydd yr NPS newydd yn rheoli troseddwyr sy'n arddangos risg uchel o niwed difrifol i'r cyhoedd yn uniongyrchol (gan gynnwys y rhai mae eu risg wedi cynyddu i uchel yn ystod cwrs eu dedfryd) neu'r rhai sydd wedi eu rhyddhau o'r ddalfa sydd wedi cyflawni'r troseddau mwyaf difrifol. Bydd ganddynt rôl allweddol ar adegau arbennig yn y broses i bob troseddwr, er enghraifft, trwy gynghori'r llysoedd ar ddedfrydu, pennu dyraniad a delio ag achos gorfodi, trwy weithio'n agos â CRCau.

Trwy'r defnydd o gystadleuaeth, rydym yn bwriadu amrywio'r ddarpariaeth o wasanaethau adsefydlu i gael y gorau allan o'r sectorau cyhoeddus, elusennol a phreifat ar y lefel leol yn ogystal â chenedlaethol. Bydd y diwygiadau'n rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr ddatblygu eu harferion effeithiol eu hunain, y cyfle i weithio gyda'r grŵp o droseddwyr â dedfrydau byr a chyda chyfraddau uchel o aildroseddu; a byddant yn eu hysgogi trwy eu talu'n llawn am ostyngiadau gwirioneddol mewn aildroseddu yn unig. Trwy gyflwyno gwasanaeth ailsefydlu 'trwy'r porth' cenedlaethol na welwyd ei debyg o'r blaen, byddwn yn sicrhau y bydd y mwyafrif o garcharorion yn derbyn cefnogaeth barhaus gan un darparwr o'u hamser yn y carchar hyd at eu hail-integreiddio yn y gymuned. Bydd NOMS yn cefnogi hyn drwy sicrhau y rhyddheir y rhan fwyaf o droseddwyr o garchar a ddynodwyd i fanteisio i'r eithaf ar y trefniadau 'trwy'r porth.'

Mae'r rhesymau pam mae pobl yn troi at droseddu'n amrywio'n fawr a bwriedir i'n diwygiadau annog a galluogi ymatebion gan ddarparwyr newydd i ddiwallu anghenion grwpiau gwahanol o droseddwyr. Mae'r diwygiadau hefyd yn cydnabod bod newid i ymddygiad troseddol yn aml yn gofyn am fuddsoddiad gan a chydweithrediad â gwasanaethau'r tu allan i'r system cyfiawnder troseddol sy'n darparu, ymysg pethau eraill, cartref, gwaith, mynediad i ddysgu neu driniaeth am broblemau fel camddefnyddio cyffuriau neu afiechyd meddwl. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr daclo'r ffactorau hyn sy'n aml yn arwain troseddwyr yn ôl at droseddu.

Yn y Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog a wnaethpwyd ar 8 Tachwedd 2012, cyhoeddwyd dull newydd o ymdrin â chystadleuaeth ac effeithiolrwydd ar draws carchardai.[9] Bydd y dull hwn yn gweld y trefniadau a ddatblygodd y sector cyhoeddus mewn cystadleuaeth i gyflenwi effeithiolrwydd a gwelliannau gweithredol yn cael eu cyflwyno ar draws pob carchar sector cyhoeddus. Bydd hyn yn golygu bydd y sector cyhoeddus yn cadw cyfrifoldeb uniongyrchol am gyflenwi dyletswyddau cystodol craidd a darparu gwasanaethau 'trwy'r porth' a gwasanaethau ategol erial a ddarperir trwy gystadleuaeth yn y farchnad. Bydd y defnydd arloesol hwn o gystadleuaeth yn gyrru costau i lawr ac yn creu'r cyfle i ehangu'r dull o daliad trwy ganlyniadau i wella canlyniadau adsefydlu.

Mae gennym weledigaeth glir ar gyfer cyflenwi dull o reoli troseddwyr yn y gymuned ac yn y carchar yn y dyfodol fel y nodir yng Nghynllun Busnes NOMS ar gyfer 2013/14[10]:

- Bydd darpariaeth sector cyhoeddus cryf ac ymarferol yn y gwasanaeth prawf a charchardai - i sicrhau y cynhelir diogelwch y cyhoedd yn gryf ac yn effeithiol;

9 www.publications.parliament.uk/pa/cm201213/cmhansrd/cm121108/wmstext/121108m0001.htm#12110865000045
10 www.justice.gov.uk/downloads/publications/corporate-reports/noms/2012/noms-business-plan-2013-2014.pdf

- Bydd y sector cyhoeddus yn llai a bydd yn gweithio ar y cyd â darpariaeth fwy a mwy amrywiol o wasanaethau gan bartneriaid yn y sectorau preifat a gwirfoddol a'r trydydd sector i hybu arloesedd a thrawsnewid canlyniadau adsefydlu (gan gynnwys darpariaeth 'trwy'r porth'); a
- Bydd costau uned ar draws pob sector yn cael eu lleihau trwy roi ar waith y modelau gweithredu mwyaf effeithiol trwy wneud defnydd effeithiol o'r farchnad a defnyddio 'taliadau trwy ganlyniadau', lle bo hynny'n briodol i ysgogi ffocws ar ganlyniadau.

Mae'r diwygiadau a amlinellir uchod yn cefnogi gweledigaeth glir y Llywodraeth Glymblaid ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Agored[11]. Comisiynu yw un o'r teclynnau mae NOMS yn ei ddefnyddio i helpu i hybu'r agenda hwn. Rydym wedi mynd â'r agenda yn ei flaen yn y ffyrdd canlynol:

- **Amrywiaeth a dewis** – newid o ragdybiaeth y dylai'r sector cyhoeddus fod y cyflenwr diofyn ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus i ymrwymiad y bydd y Llywodraeth yn comisiynu oddi wrth ystod o ddarparwyr
- **Tryloywder** – y pwysigrwydd o wahanu swyddogaethau comisiynu a gweithgareddau darparu mewn cyrff cyhoeddus
- **Atebolrwydd** – y pwysigrwydd bod pob darparwr yn cael ei ddal i gyfrif yn ddigonol gan yr awdurdod comisiynu
- **Datganoli** – cydnabyddiaeth er y dylid datganoli penderfyniadau ynghylch gwasanaethau cyhoeddus fel rheol at y lefel briodol isaf, ni all rhai gwasanaethau gael eu datganoli mor barod i unigolion na chymunedau

[11] www.openpublicservices.cabinetoffice.gov.uk

# Bwriadau Comisiynu

## Rhagymadrodd

"Bwriad comisiynu"[12] yw datganiad sy'n cyflwyno blaenoriaethau'r awdurdod comisiynu mewn perthynas â gwasanaethau y mae'n dymuno eu sicrhau. Mae'r bennod hon yn cyflwyno **chwe bwriad comisiynu cyffredinol**, sy'n ffocysu ar bwysigrwydd gwasanaethau troseddwyr effeithiol, gwella diogelwch y cyhoedd a rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen i droseddwyr i'w helpu i ymdrin â'u hymddygiad troseddol. Bydd y bwriadau hyn hefyd yn cyfrannu at gyflenwi effeithiolrwydd pellach ac yn cryfhau ac integreiddio gwasanaethau troseddwyr ar draws ystod o ddarparwyr sy'n mynd yn fwy a mwy amrywiol.

Mae'n bwysig nodi nad yw bwriadau comisiynu'n ddarpariaeth gynhwysfawr o bob un o ofynion NOMS. Cyfathrebir y rhain gan Gytundebau Lefel Gwasanaeth (SLAau) a chontractau â darparwyr, gan gynnwys trwy gyfeiriadau at ddeddfwriaeth, manylebau gwasanaeth, cyfarwyddiadau a gofynion gorfodol eraill a gynhwysir yn y dogfennau hyn.

Darperir esboniad o'r chwe bwriad comisiynu cyffredinol isod. Mae Atodiad A yn cyflwyno'r bwriadau carcharol penodol sy'n sail i'n bwriadau cyffredinol, sy'n darparu sail ar gyfer trafodaethau yn arwain at Gytundebau Lefel Gwasanaeth newydd a chontractau wedi eu hadnewyddu ar gyfer carchardai, yn cychwyn o Ebrill 2014.

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'i dogfen gymar, *Tystiolaeth a Segmentu NOMS* www.justice.gov.uk/about/noms/commissioning/evidence-based-commissioning. Mae'r ddogfen *Tystiolaeth a Segmentu NOMS* yn darparu tystiolaeth gefndirol i helpu darparwyr a chomisiynwyr benderfynu ar werth gorau a'r dull mwyaf effeithiol o gyflenwi'r bwriadau.

| 1. | Ehangu diogelwch y cyhoedd a sicrhau amgylchedd diogel, gweddus a diwylliant adsefydlu |
|---|---|

Diogelu'r cyhoedd, lleihau aildroseddu a chyflenwi dedfrydau'r llys yw prif nodau NOMS. Mae'n hanfodol y rheolir troseddwyr yn effeithiol, y lleiheir y risg o droseddau pellach a'r risg o niwed difrifol, a bod y cyhoedd yn teimlo'n ddiogel. Mae darparu amgylchedd cyflenwi gweddus a diogel yn sylfaenol i gyflawni'r canlyniadau hyn. Mae hefyd yn sail hanfodol ar gyfer adeiladu diwylliant cefnogol ac adsefydlog sy'n ysgogi a galluogi troseddwyr i wneud newidiadau positif yn eu bywydau.

Mae'r bwriad hwn yn ffocysu ar ddatblygiad gweithredol amgylchedd sy'n ddiogel, sicr a gweddus, ac un sy'n helpu troseddwyr tuag at adsefydlu wrth sicrhau yn y pen draw y diogelir y cyhoedd. Mae hyn yn gofyn am ddiwylliant lle mae awdurdod yn cael ei ymarfer yn hyderus, yn gyson ac yn deg er mwyn adeiladu ymddiriedolaeth a gwell diogelwch.

[12] Dylai bwriad comisiynu fod yn glir ynghylch y canlyniad mae'n berthnasol iddo, y rheswm am y bwriad, a'r ymateb a ddisgwylir oddi wrth ddarparwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb. Gall bwriad comisiynu gynnwys manylion am allbynnau a mewnbynnau a geisir, lle'r ystyrir bod angen hyn i sicrhau y cyflenwir blaenoriaethau.

| 2. | **Cryfhau'r gwaith o integreiddio'r dull o gyflenwi gwasanaethau rhwng darparwyr a ariannwyd yn uniongyrchol, darparwyr a gydgomisiynwyd a phartneriaid ehangach** |
|---|---|

Mae integreiddio gwasanaethau'n hanfodol i wneud y gorau o fuddsoddiad a sicrhau gwell canlyniadau i droseddwyr, eu teuluoedd a chymunedau lleol. Mae'r bwriad hwn yn ffocysu ar alinio effeithiol, blaenoriaethu a dilyniant o gyflenwi gwasanaethau gyda phob darparwr gwasanaethau i droseddwyr yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwasanaethau a gomisiynwyd yn uniongyrchol gan NOMS gan ystod eang o ddarparwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a mentrau cymdeithasol
- Gwasanaethau'n benodol ar gyfer troseddwyr a gomisiynwyd gan Adrannau eraill o'r Llywodraeth, Llywodraeth Cymru a'u hasiantaethau neu gomisiynwyr eraill yn y sector cyhoeddus fel Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau
- Contractau masnachol allanol (er enghraifft mewn diwydiannau carcharol)
- Gweithgaredd prif ffrwd a gomisiynwyd ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol y mae angen i droseddwyr gael mynediad ato yn y gymuned (er enghraifft iechyd, tai, a dysgu a sgiliau)
- Gweithgaredd partneriaeth statudol ac anstatudol sy'n cefnogi diogelu'r cyhoedd ac yn gostwng canlyniadau aildroseddu fel MAPPA, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Diogelu neu Reoli Troseddwyr yn Integredig
- Gwasanaethau sy'n sicrhau gofal parhaus ar gyfer y rhai a ryddhawyd ar drwydded

| 3. | **Cyflenwi gwasanaeth effeithiol, o ansawdd** |
|---|---|

Mae'r bwriad hwn yn ffocysu ar ansawdd y gwasanaeth mae darparwyr yn ei gyflenwi. Dylai cyflenwi gael ei gyfoethogi gan dystiolaeth, yn effeithiol, gydag ansawdd wedi'i sicrhau, wedi ei dargedu'n dda, oddi mewn i isafswm y gofynion fel y cyflwynir nhw yn y manylebau, y cyfarwyddiadau a'r contractau. Mae rhaid i wasanaethau fod o ansawdd priodol a rhaid iddynt gael eu cyflenwi yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn cael y gwerth gorau i'r trethdalwr.

| 4. | **Sicrhau bod cyflenwi yn cyfateb i'r boblogaeth, y diben a chanlyniadau NOMS** |
|---|---|

Dylai pob darparwr feddwl am gyfateb cyflenwi i boblogaeth, diben a chanlyniadau, ond yn arbennig bydd llawer o ddarparwyr yn cyflenwi oddi mewn i gyd-destun penodol (fel delio â throseddwyr risg uchel, canolig neu isel, ystâd y merched neu oedolion ifanc, ystâd diogeled uchel, carchardai hyfforddi neu garchardai ailsefydlu) lle bydd angen i gyflenwi ffocysu ar ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd hwnnw.

Mae segmentu'n rhaglen barhaus o waith sy'n datblygu ac yn cyfuno'r dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio o ran cyflenwi gwahanol ganlyniadau i wahanol grwpiau. Dylai darparwyr ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir drwy

segmentu a ffynonellau data lleol i dargedu cyflenwi rheoli achosion, goruchwyliaeth, gwasanaethau adsefydlu ac ymyriadau lle maent yn debygol o sicrhau'r budd orau i leihau aildroseddu, diogelu'r cyhoedd a lleihau'r risg o niwed. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwasanaethau'n gymesur ac yn cyfateb i risgiau, anghenion ac amgylchiadau troseddwyr.

Gellir canfod mwy am y dull segmentu a'r dystiolaeth mae NOMS yn ei defnyddio i gyfoethogi ein dewisiadau comisiynu yn: www.justice.gov.uk/about/noms/commissioning/evidence-based-commissioning.

| | |
|---|---|
| **5.** | **Sicrhau bod cyflenwi gwasanaethau'n ymateb i anghenion a nodweddion unigol er mwyn mwyhau canlyniadau** |

Gall troseddwyr arddangos ystod eang o brofiadau ac anghenion sy'n effeithio ar eu gallu i ymgysylltu ag ymyriadau a gwasanaethau, cwblhau eu dedfrydau'n llwyddiannus, a byw bywydau annibynnol heb droseddu. Mae hyn yn cynnwys nodweddion gwarchodedig megis rhyw, anabledd ac oed. Mae'r bwriad hwn yn ffocysu ar sicrhau bod cyflenwi gwasanaethau yn ymateb i anghenion a nodweddion unigol i sicrhau (i) y cyflwynir ymyriadau a gwasanaethau mewn ffyrdd mae troseddwyr yn fwyaf tebygol o ymateb iddynt, ac yn cael y budd mwyaf ohonynt; (ii) y bodlonir dyletswyddau ehangach o ofal a gweddusrwydd a (iii) bod gofal yn barhaol wrth i droseddwyr gael eu rhyddhau a'u rhyddhau ar drwydded.

| | |
|---|---|
| **6.** | **Cyflenwi gwasanaethau cenedlaethol neu arbenigol y rhoddir blaenoriaeth iddynt** |

Mae rhai gwasanaethau, oherwydd eu natur neu'r grŵp o droseddwyr yr anelwyd hwy atynt, yn rhai sydd angen lefel uwch o arweiniad a manylebau. Disgwylir i ddarparwyr, lle bo hynny'n berthnasol, wneud y defnydd gorau o ddarpariaeth bresennol a ffocysu ar ddatblygu gallu a gallu lle bo'i angen i gyflenwi gwasanaethau arbenigol. Mae'n bwysig i ddarparwyr hefyd allu ymateb i flaenoriaethau Gweinidogol a mentrau newydd.

# Disgwyliadau NOMS gan Ddarparwyr

Mae NOMS yn comisiynu gwasanaethau troseddwyr gan ystod eang o ddarparwyr ac mae'r adran hon yn crynhoi rhai o'r disgwyliadau allweddol NOMS gan ei ddarparwyr. Mae'n wir, wrth gwrs, fod yn rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â'r gyfraith a chyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth neu gontract perthnasol. Felly, ni fwriedir i'r adran hon fod yn gynhwysfawr; yn hytrach mae'n pwysleisio rhai o'r disgwyliadau penodol y dylai darparwyr eu hystyried fel rhai sy'n berthnasol, ar gyfer pob bwriad comisiynu.

- Cyflenwi'r gofynion isafol ym manylebau gwasanaeth perthnasol NOMS fel y cyflwynir hwy yn y Cytundebau Lefel Gwasanaeth / contractau, i sicrhau bod gwasanaethau'n gyfreithiol, diogel a sicr (lle bo hynny'n briodol) a gweddus. Mae manylebau'r gwasanaeth yn nodi'r canlyniadau a'r

allbynnau sydd eu hangen ar gyfer pob gwasanaeth a restrir yng Nghyfeirlyfr Gwasanaethau NOMS[13]

- Lle bo'n berthnasol. cyflenwi bwriadau NOMS a manylu am sut yr atebir y bwriadau hyn, gan ddangos sut mae tystiolaeth yn cefnogi argymhellion, yn arbennig mewn perthynas â gwasanaethau a gynlluniwyd i'w hisgontractio
- Cydnabod y gall anghenion gwasanaeth, galw a blaenoriaethau busnes newid yn sydyn ac ymgysylltu'n llawn ag unrhyw newid i fwriadau comisiynu NOMS a newidiadau cysylltiedig i Gytundebau Lefel Gwasanaeth fel bo'r angen
- Sicrhau'r gwerth am arian gorau a gallu dangos eu bod yn gystadleuol mewn amgylchedd ariannol heriol, gan gynnwys darparu sicrwydd am ansawdd a gwerth (gan gynnwys costau uned / prisiau) cyflenwi gwasanaeth
- Comisiynu ac is-gontractio gwasanaethau (ond am y rhai a neilltuwyd o dan ddeddf gwlad [14]) lle mae hyn yn effeithiol ac yn effeithlon ac, o wneud hynny, gweithredu oddi mewn i'r gyfraith a fframweithiau ymarfer gorau, gan gynnwys y Compact[15]
- Ymgysylltu mewn gweithgaredd atal llygredd mewn carchardai. Hynny yw, sicrhau yr addysgir ac yr hyfforddir staff am sut i osgoi ymarfer llygredig a beth i'w wneud pe gwelir rhywbeth amheus[16] Lle mae gweithgaredd llygredig yn digwydd mae rhaid i ddarparwyr adrodd amdano a gweithio â rheolwyr llygredd rhanbarthol a lleol i sicrhau erlyniad llwyddiannus, neu ddelio â staff llygredig yn gadarn drwy drefniadau disgyblu pe bai'r Heddlu/y CPS yn dod i'r casgliad nad oedd erlyn er budd y cyhoedd
- Ar lefel leol, bodloni cyfrifoldebau'r bartneriaeth statudol berthnasol a cheisio gwella canlyniadau ar gyfer troseddwyr trwy, er enghraifft, ddylanwadu a chefnogi asesiad lleol o anghenion, cynllunio strategol a chyflenwi cysylltiedig, gan gynnwys drwy gydgomisiynu. Trwy wneud felly, mae'n rhaid i ddarparwyr fod yn glir mai hwy, ac nid y bartneriaeth na'r corff sy'n cydgomisiynu, sy'n atebol i'r Asiantaeth am y gwasanaethau a ariannir gan NOMS.
- Bod yn ymwybodol o ddatganiad polisi cydraddoldebau a chyfrifoldebau cyfreithiol NOMS.[17] a chydymffurfio â hwy. Gallai hyn olygu mwy o bwyslais ar adnabod ac ymdrin ag anghenion penodol grwpiau â nodweddion gwarchodedig[18] gwahanol yn y boblogaeth droseddol
- Gweithio gyda NOMS, wrth i ni barhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth, i ddeall yn well sut gall y gwasanaethau rydym yn eu comisiynu fod yn fwy atebol i anghenion troseddwyr gyda nodweddion gwarchodedig

[13] Gweler: www.justice.gov.uk/about/noms/noms-directory-of-services-and-specifications
[14] Mae Deddf Rheoli Troseddwyr 2007 yn cyfyngu ar ddarparu cyngor i'r llysoedd i'r sector cyhoeddus.
[15] Y Compact yw'r cytundeb, sy'n amlinellu ffordd o weithio er mantais, rhwng y llywodraeth a'r trydydd sector. Gweler: www.compactvoice.org.uk/sites/default/files/the_compact.pdf
[16] Gall carchardai gyflenwi hyfforddiant lleol I atal llygredd i gyrff eraill sy'n gweithio mewn carchardai pe bai angen.
[17] Gweler Atodiad B: Cydraddoldeb am fwy o fanylion.
[18] Rhestrir nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn Atodiad B: Cydraddoldeb.

- Gweithio'n onest a bod yn eirwir ar bob achlysur mewn perthynas â chyflenwi contract, adrodd am berfformiad a bilio

Cyn comisiynu gwasanaethau troseddwyr, gall NOMS ofyn i ddarparwyr amlinellu eu dull o weithredu mewn perthynas â'r disgwyliadau hyn. Lle nodir problemau, gall NOMS fynnu bod y rhain yn cael eu hateb drwy amcanion ychwanegol mewn Cytundebau Lefel Gwasanaeth a chontractau.

# Rhagdybiaethau wrth Gynllunio

Mae'r adran hon yn darparu rhagdybiaethau ynghylch ariannu, perfformiad a chontract a sicrwydd Cytundebau Lefel Gwasanaeth o 2014. Yn anochel, mae rhagdybiaethau wrth gynllunio yn debygol o newid. Bydd unrhyw ddiweddariadau sydd eu hangen yn cael eu cyflwyno yn uniongyrchol i ddarparwyr.

## Rhagdybiaethau Ariannol

Mae'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2014-15 a thu hwnt yn parhau i fod yn heriol iawn. Mae diffygion sylweddol yn erbyn y cynlluniau gwreiddiol i gyflawni arbedion Adolygiad Gwariant 2010 ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cytuno'n ddiweddar i arbedion sylweddol ychwanegol am 2014-15 a'r blynyddoedd sydd i ddod gyda'r Trysorlys. O ganlyniad, mae'r gofyniad i sicrhau arbedion ar draws yr holl gorff yn parhau o'r pwys mwyaf. Mae gwaith yn parhau i gytuno ar y dyraniad ariannol cynhwysfawr i NOMS ar gyfer 2014-15 a'r blynyddoedd sydd i ddod. Bydd y rhagdybiaethau ariannol diweddaraf, gan gymryd i ystyriaeth y newidiadau posibl mewn galw am ddedfrydau carcharol a chymunedol, yn cael eu bwydo i mewn i'r trafodaethau comisiynu.

Mae NOMS wedi ymrwymo i weithio â darparwyr i ddefnyddio gwybodaeth gref gynyddol am y costau o gyflenwi gwasanaethau i sicrhau bod cyllido a chyflenwi (niferoedd, perfformiad, ansawdd) wedi eu halinio i gefnogi cost-effeithiolrwydd. Dylai darparwyr ddisgwyl rhoi atebion i gwestiynau cyllidol am gostau rhaglenni wrth baratoi am ac yn ystod y broses gomisiynu ac yn ychwanegol bydd angen ffocws hefyd i ddeall effaith ariannol drosiannol y diwygiadau adsefydlu ar ddarparwyr gwasanaethau cymunedol.

## Mesur Perfformiad

Fel y mynegwyd ym Mwriadau Comisiynu NOMS ar gyfer 2013-14, rydym yn symud, lle bo'n briodol, at gyfundrefn o gyflawni a chyflenwi sydd wedi ei ffocysu'n fwy ar berfformiad sy'n cyd-fynd ag egwyddorion talu trwy ganlyniadau .

Rydym wedi adolygu'r fframwaith sy'n cysylltu canlyniadau cyffredinol NOMS â'r gofynion cyflenwi a osodwyd ar gyfer darparwyr, yn erbyn y rhai y trafodir niferoedd a lefelau fel rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth a'r broses o drafod contractau. Roeddem yn cytuno er bod y cyd-destun polisi ar gyfer canlyniadau NOMS yn newid yn sylweddol, mae'n blaenoriaethau o lefel uchel yn parhau fwy neu lai yr un fath, fel y cyflwynwyd hwy yn y ddeddfwriaeth berthnasol. Mae Atodiad C yn amlinellu'r gofynion cyflenwi.

Byddwn yn trafod ac yn cytuno ar ofynion cyflenwi a fydd yn sicrhau ymestyniad priodol mewn cyflenwi ac effeithiolrwydd. Lle bo hyn yn bosibl, fe'i cefnogir trwy ddefnyddio tystiolaeth o ddata a ddarperir gan Grŵp Cynllunio a Dadansoddi NOMS.

Lle mae darparwyr yn gyfrifol yn uniongyrchol am reoli is-gontractau, dylent sicrhau bod ganddynt y dystiolaeth a'r wybodaeth gywir er mwyn rheoli perfformiad yn effeithiol, sicrhau ansawdd y cyflenwi ac ateb unrhyw bryderon yn syth.

## Costau

Mae costau, gwerth am arian, cyflenwi yn erbyn manylebau a chontractau, ac ansawdd cyflenwi i gyd yn rhannau pwysig o drafodaethau rhwng darparwyr cymunedol a charcharol â chomisiynwyr a rheolwyr contractau. Er bod datblygiad mesurau 'gwerth am arian' yn gymhleth, mae NOMS yn cydnabod bod yn rhaid i fframwaith perfformiad asesu effeithlonrwydd ynghyd ag effeithiolrwydd. Ar gyfer darparwyr sector cyhoeddus, bydd y trafodaethau hyn yn cael eu cefnogi gan y defnydd o ddata cost uned ar gyfer darparwyr unigol a gesglir trwy PREview (system costio yr Ymddiriedolaeth Prawf) ac INview (system costio carchardai sector cyhoeddus).

Gydag argaeledd gwybodaeth am gostau go iawn fesul gwasanaeth ar gyfer darparwyr cymunedol, am y tro cyntaf, gwnaed gwaith yn ystod y cylch comisiynu ar gyfer 2013-14 i gefnogi defnydd o'r data hwn yn y broses gomisiynu. Ffactor allweddol mewn gweithredu dull o'r fath yn llwyddiannus oedd datblygu gallu mewn perthynas â defnyddio gwybodaeth rheolwyr am gostau prawf. Bydd data am gostau gwirioneddol ar gyfer 2012-13 yn darparu llinell sylfaen am y gost o gyflenwi darpariaeth gymunedol a bydd o'r pwys mwyaf wrth gefnogi'r gwaith o ddiwygio'r gwasanaethau hyn a'u gwneud yn gystadleuol.

Mae lleihau costau uned yn y carchar yn un o'n blaenoriaethau ac yn rhaglen weithgaredd fawr. Bydd cyflwyno newid i gyflawni'r amcan hwn yn gofyn am ddealltwriaeth dda o gostau gwasanaethau mewn carchardai sector cyhoeddus. O dan y rhaglen ddiwygio i leihau costau uned, mae'r prosiect meincnodi'n gweithredu ffyrdd newydd o weithio a nodwyd o'r broses gynigion cystadleuol a allai gyflwyno cyfundrefnau newydd a chostio llai. Gall INview gefnogi'r newidiadau hyn gan ddarparu gwybodaeth am yr adnoddau sydd wedi eu defnyddio ac i'w gwneud yn bosibl i gymharu'r defnydd o adnoddau a'r gost sy'n deillio o garchardai tebyg. Bydd data INview hefyd ar gael i oleuo adolygiadau o Gytundebau Lefel Gwasanaeth a thrafodaethau am gomisiynu rhwng comisiynwyr a gwasanaeth carchardai'r sector cyhoeddus.

Pan ystyrir bod data INview yn ddigon cadarn, gellir ei ddefnyddio yn y broses gymedroli yn y System Graddio Carchardai er mwyn i gost effeithiolrwydd carchardai a gweithredu meincnodau gael eu cymryd i ystyriaeth yn y graddio.

Lle mae darparwyr yn uniongyrchol gyfrifol am reoli isgontractau, dylent sicrhau y rheolir costau unrhyw drefniadau busnes yn effeithiol.

# Sicrwydd Contractau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth

Elfen ganolog yn ein dull o gomisiynu gwasanaethau troseddwyr yw ein bod yn troi fwyfwy at ddefnyddio model rheoli sy'n fwy seiliedig ar risg ar gyfer contractau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth lle bydd

disgwyl i ddarparwyr roi sicrwydd y gellir ei ddilysu i'r comisiynydd fod y gwasanaethau a gomisiynwyd yn diwallu'r angen am y gwasanaeth a'u bod yn cael eu cyflenwi mewn modd cyfreithlon, diogel a gweddus.

## Darparwyr Cymunedol

Ni fydd unrhyw newid i'r trefniadau sicrwydd ar gyfer darparwyr cymunedol nes bydd y contractau newydd yn eu lle. Bydd Cytundebau Lefel Gwasanaeth a threfniadau rheoli contractau trosiannol ac yn y dyfodol, pan fyddant yn eu lle, yn sicrhau bod y darparwyr cymunedol newydd yn atebol ac yn darparu'r lefelau o sicrwydd sydd eu hangen.

## Carchardai a Reolir yn Breifat

Cyflwynir y trefniadau ar gyfer sicrhau cyflenwi gan garchardai a reolir yn breifat yn y contract ar gyfer pob carchar. Yn gryno y rhain yw:

- Bydd y sefydliad yn gyfrifol am hunanarchwiliad, datganiadau sicrwydd a gwiriadau rheoli a llywodraethu mewnol er mwyn cadarnhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi'n unol â gofynion y contract
- Gall Comisiynwyr gomisiynu archwiliadau allanol (dan arweiniad tîm Archwilio a Sicrwydd Corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder) mewn meysydd penodol lle nad yw prosesau mewnol yn rhoi sicrwydd o gyflawni'r contract i gomisiynwyr
- Mae NOMS yn gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer gwasanaethau ymgynghori, arolygu ac adolygu eraill er mwyn darparu'r sicrwydd sydd ei angen
- Bydd darparwyr yn cynnal proses reoli risg yn unol â dogfen *Managing Public Money* Trysorlys EM a chanllawiau sydd wedi eu nodi yn strategaeth rheoli risg NOMS
- Bydd arolygwyr ym mhob safle yn arsylwi ac yn sicrhau ansawdd y modd y cyflenwir gwasanaethau a gomisiynir yn ddyddiol, ac yn cofnodi unrhyw broblemau fel bo'u hangen
- Disgwylir i ddarparwyr gyflenwi'r rhaglenni Ymddygiad Troseddol Archredig yn unol â manyleb Cyflenwi Rhaglenni Archrededig, cydymffurfio â gofynion yr archwiliad ar gyfer y rhaglen arbennig a gyflwynir a chymryd rhan mewn adolygiadau Sicrwydd Ansawdd a gweithgaredd archwilio pryd bynnag y bo angen ar gyfer y rhaglen berthnasol

## Carchardai'r Sector Cyhoeddus

Cyflwynir trefniadau ar gyfer sicrhau cyflenwi gan garchardai'r sector cyhoeddus yn y Cytundebau Lefel Gwasanaeth. Yn gryno, y rhain yw:

- Bydd sefydliadau'n gyfrifol am hunanarchwiliad, datganiadau sicrwydd a gwiriadau rheoli a llywodraethu mewnol er mwyn cadarnhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi'n unol â gofynion y Cytundebau Lefel Gwasanaeth

- Gall Comisiynwyr gomisiynu archwiliadau allanol (dan arweiniad tîm Archwilio a Sicrwydd Corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder) mewn meysydd penodol lle nad yw prosesau mewnol yn rhoi sicrwydd o gyflawni'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth i'r Comisiynwyr
- Bydd Comisiynwyr yn adolygu'r cyflenwi yn erbyn y Cytundebau Lefel Gwasanaeth drwy ddefnyddio proses arolygu gymesur, gan ddibynnu'n bennaf ar wybodaeth a phrosesau'r darparwr ar gyfer sicrwydd mewnol
- Bydd darparwyr yn cynnal proses reoli risg yn unol â dogfen *Managing Public Money* Trysorlys EM a chanllawiau sydd wedi eu nodi yn strategaeth rheoli risg NOMS
- Disgwylir i ddarparwyr gyflenwi'r rhaglenni Ymddygiad Troseddol Archrededig yn unol â manyleb Cyflenwi Rhaglenni Archrededig, cydymffurfio â gofynion yr archwiliad ar gyfer y rhaglen arbennig a gyflwynir a chymryd rhan mewn adolygiadau Sicrwydd Ansawdd a gweithgaredd archwiliad pryd bynnag y bo angen ar gyfer y rhaglen berthnasol

# Galw am Wasanaethau

Wrth gynllunio pa wasanaethau i'w comisiynu, dylid rhoi pwyslais arbennig ar ddeall y galw am wasanaethau troseddwyr gan y llysoedd yn ogystal â deall yr anghenion criminogenig sy'n bresennol mewn grwpiau gwahanol (neu 'segmentau') o'r boblogaeth droseddol.

Mae newidiadau yn y graddau a'r math o drosedd a gyflawnwyd yn effeithio ar y galw a roddir ar wasanaethau troseddwyr. Caiff y cydbwysedd rhwng gwasanaethau carcharol a gwasanaethau cymunedol ei effeithio gan y nifer a'r math o ddedfrydau a fydd yn cael eu pennu gan y llysoedd.

Pan fo troseddwr yn derbyn Dedfryd Gymunedol neu Orchymyn Dedfryd (SSO)[19], mae un neu fwy o ofynion ynghlwm wrth y gorchymyn er mwyn ymdrin ag un neu fwy o'r pum diben dedfrydu.[20]

Gellir canfod mwy o wybodaeth am y boblogaeth carchardai a llwyth achosion y gwasanaeth prawf yn yr *Offender Management Statistics Quarterly Bulletin*[21]. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyhoeddi rhagamcanion o boblogaeth carchardai yn flynyddol. Bwriedir i'r rhagamcanion nesaf gael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2013 a byddant ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r ffigyrau isod yn rhoi ciplun o'r galw a byddant yn newid dros amser.

## Cymunedol

Roedd llwyth achosion[22] y gwasanaeth prawf ar ddiwedd Mawrth 2013 yn 222,306. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o bump y cant o'i gymharu â'r un pwynt yn 2012. Mae'r gostyngiad yn parhau'r tuedd tuag at i lawr a welwyd yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac mae'n lleihad o naw y cant ers yr uchafswm o 243,434 yn 2008.

Ar ddiwedd Mawrth 2013, cyfanswm llwyth achosion troseddwyr yn cyflawni gorchmynion llys oedd 112,090, a oedd yn ddeg y cant yn is na'r flwyddyn flaenorol. O blith y rhain:

- Roedd nifer y troseddwyr a oedd yn cael eu goruchwylio o dan Orchmynion Cymunedol yn 74,768, deg y cant yn is na'r flwyddyn flaenorol

- Roedd nifer y troseddwyr a oedd yn cael eu goruchwylio o dan Orchmynion Dedfrydau Gohiriedig ar ddiwedd Mawrth 2013 yn 37,865, gostyngiad o naw y cant ar y flwyddyn flaenorol

Lleihaodd nifer y troseddwyr yn cychwyn ar orchmynion llys hefyd dros y cyfnod hwn. Fe wnaeth cychwyniadau Gorchmynion Cymunedol ostwng bymtheg y cant rhwng y chwarter yn diweddu ym Mawrth

[19] Am fwy o wybodaeth am y gwahanol fathau o ddedfrydau a gorchmynion llys, gweler: www.direct.gov.uk/en/CrimeJusticeAndTheLaw/Sentencingprisonandprobation
[20] Am y pum diben dedfrydu, gweler: http://sentencingcouncil.judiciary.gov.uk/sentencing/what-sentences-for.htm
[21] www.gov.uk/government/publications/offender-management-statistics-quarterly-jan-mar-2013
[22] Mae cyfansymiau'r llwythau achosion a nodir yn cyfrif troseddwyr unigol unwaith yn unig. Fodd bynnag, gall fod gan droseddwyr fwy nag un math o ddedfryd yn cydredeg.

2012 a'r chwarter yn diweddu ym Mawrth 2013. Fe wnaeth cychwyniadau Gorchmynion Dedfrydrau Gohiriedig ostwng saith y cant dros y cyfnod hwn.

Sefydlogodd y nifer o droseddwyr ar y llwyth achosion cyn rhyddhau ac ar ôl rhyddhau ar 111,511 yn dilyn tuedd at i lawr flaenorol. Fodd bynnag, cynyddodd y nifer yn cael eu goruchwylio ar drwydded ar ôl rhyddhau o dri y cant rhwng 31 Mawrth 2012 a 31 Mawrth 2013.

Parhaodd y nifer o ofyniadau a ddechreuwyd o dan orchmynion llys i ostwng am y chwarteri'n diweddu ym Mawrth 2012 a Mawrth 2013, yn unol â'r lleihad yn nifer y gorchmynion llys a ddechreuwyd. Achoswyd y rhan fwyaf o'r lleihad hwn gan ostyngiadau yn y nifer o ofynion o gyrffiwau a gwaith di-dâl a roddwyd o dan orchmynion cymunedol a Gorchmynion Dedfrydrau Gohiriedig. Gostyngodd y defnydd o bob gofyniad, ac eithrio gofynion triniaeth am gyffuriau a roddwyd fel rhan o Orchymyn Dedfryd Ohiriedig (a oedd i fyny bedwar y cant dros yr un cyfnod.)

# Carcharol

Fe wnaeth y boblogaeth mewn carchardai ostwng o dri y cant o 86,048 ar 30 Mehefin 2012 i 83,842 ar 30 Mehefin 2013.

Fe wnaeth y boblogaeth ar remand barhau ar dueddiad at i lawr, er roedd cyfradd lai o ostyngiad na'r flwyddyn flaenorol. Gostyngodd y nifer o garcharorion remand o dri y cant rhwng Mehefin 2012 a Mehefin 2013. Roedd hyn oherwydd lleihad o 12 y cant yn y boblogaeth a euogfarnwyd ond heb eu dedfrydu (o 3,653 i 3,231). Ni welwyd mo'r lefel hon o leihad yn y boblogaeth nas dedfrydwyd, sy'n awgrymu bod effaith lawn mesurau i gyfyngu'r defnydd o remand i droseddwyr a fyddai'n annhebygol o dderbyn dedfryd o garchar bellach wedi eu gwireddu.

Fe wnaeth y boblogaeth oedd wedi cael ei dedfrydu ostwng hefyd o 2,329, neu dri y cant, o 73,562 ym Mehefin 2012 i 71,233 ym Mehefin 2013. Yr unig gynnydd oedd mewn troseddwyr oedd yn bwrw dedfrydau penodol hirach dros bedair blynedd, gan gynnwys 300 o droseddwyr ar y Ddedfryd Benodol Estynedig newydd. Ar y llaw arall, parhau i ostwng wnaeth nifer y troseddwyr oedd yn bwrw dedfrydau o lai na 12 mis a gostyngodd dedfrydau o 12 mis i lai na phedair blynedd hefyd.

Mae'r ffactorau hyn, o'u cyfuno, yn golygu bod y boblogaeth bresennol yn tracio rhwng y rhagamcanion isel a chanolig.

# Manylion Cyswllt

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau am y ddogfen hon i Uned Cefnogi Comisiynu NOMS:

**Uned Cefnogi Comisiynu**
Directorate of Commissioning and Commercial
National Offender Management Service
3rd Floor
Clive House
70 Petty France
London SW1H 9EX

E-bost: commissioning.support@noms.gsi.gov.uk <mailto:commissioning.support@noms.gsi.gov.uk>

# Atodiadau

## A. Bwriadau Carcharol Penodol

| 1. | Gwella diogelwch cyhoeddus a sicrhau amgylchedd diogel, gweddus a diwylliant adsefydlu. |
|---|---|

Mae'r bwriad hwn yn ffocysu ar ddiogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu drwy ddarparu amgylchedd diogel, sicr a gweddus ar gyfer cyflenwi, lle galluogir troseddwyr i wneud newidiadau positif i'w bywydau.

### Galluogi ailsefydlu ac ymatal rhag troseddu:

| 1(a) | **Mae ymdeimlad o bwrpas mewn perthynas ag ailsefydlu, ymatal rhag troseddu, a dilyniant drwy ddedfryd sy'n cael ei rannu a'i ddeall gan bawb sy'n gweithio â throseddwyr.** |
|---|---|

Dylai darparwyr allu dangos bod ymdeimlad o bwrpas clir mewn perthynas ag adsefydlu a dilyniant y bydd pawb sy'n gweithio â throseddwyr yn ei rannu ac yn gallu ei fynegi.

Dylid bod â chynllun strategol cyffredinol ar gyfer sut bydd darparwyr yn cyflenwi canlyniadau adsefydlu yn ogystal ag ystod eang o gyfleoedd ar gyfer twf a newid positif.

| 1(b) | **Mae pawb sy'n gweithio â throseddwyr yn dangos ymddygiadau ac agweddau cyson sy'n cefnogi adsefydlu ac ymatal rhag troseddu.** | |
|---|---|---|

Dylai pawb sy'n rhyngweithio â throseddwyr fod â'r wybodaeth, y cymwyseddau, medrusrwydd, nodweddion a chefnogaeth i fwyhau effeithiolrwydd eu rhyngweithio. Dylent geisio ffurfio perthnasau adeiladol â throseddwyr ac ymdrin ag agweddau, meddylfryd ac ymddygiadau gwrthgymdeithasol trwy arddangos ymddygiadau a rhyngweithiadau pro-gymdeithasol a hyfforddi troseddwyr. Yn benodol, dylai'r rhai sy'n gweithio â throseddwyr fodelu sgiliau ac agweddau a fydd yn helpu i ymatal rhag troseddu, megis agweddau pro-gymdeithasol, datrys problemau, cymryd persbectif, helpu troseddwyr gymryd cyfrifoldeb am eu dyfodol, a datrys gwrthdaro yn adeiladol. Dylai'r rhai sy'n gweithio â throseddwyr hefyd adnabod cryfderau ac adnoddau troseddwyr a gweithio i'w datblygu.

Dylai darparwyr allu dangos bod effeithiolrwydd eu hymgysylltu a'u rhyngweithio gyda chyflogeion/troseddwyr yn cael eu monitro'n barhaus a bod gwelliannau a ganfyddir yn cael eu rhoi ar waith.

### Diogelwch a Diogeledd:

| 1(c) | **Mae asesiadau risg, systemau rheoli risg a rhannu gwybodaeth o ansawdd da rhwng asiantaethau partner (lle bo'n berthnasol) yn arwain at ddefnydd o fesurau diogelwch y cyhoedd a diogelwch priodol, ac mae'r rhain yn sicrhau y diwellir anghenion dioddefwyr yn briodol.** | |
|---|---|---|

Dylai'r amodau diogelwch y mae carcharor yn cael ei ddal oddi tanynt fod yn briodol i'r risgiau unigol a arddangosir. Mae defnyddio diogelwch diangen yn ddrud, yn ddefnydd anghymesur o amser staff a gall rwystro, yn hytrach na galluogi mynediad y carcharor i ymyriadau a gweithgareddau ail-sefydlogi. Yn yr un modd, mae methu darparu mesurau diogelwch priodol yn creu risg y bydd y carcharor yn dianc, niwed i eraill ac yn erydu hyder y cyhoedd yng ngallu NOMS i ddal carcharorion yn ddiogel. Mae asesiadau risg ansawdd da a rhannu gwybodaeth, wedi eu seilio ar systemau cryf sy'n cymryd gwybodaeth a diogelwch deinamig i ystyriaeth yn hanfodol o ran sicrhau bod gan garcharorion ddiogelwch sy'n gyson â rheoli risg a hyrwyddo'r ailsefydlu a gymhwysir atynt ar bob cam o'u dedfryd, oddi mewn i'r sefydliad a thra maent yn cael eu hebrwng.

| 1(ch) | **Cesglir, datblygir a rhennir gwybodaeth mewn ffordd ddiogel ac amserol.** |
|---|---|

Mae gwybodaeth wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau mewn carchardai. Mae'n hanfodol bod yn rhyngweithiol wrth gasglu gwybodaeth ac adnabod yr amgylchiadau lle mae'n rhaid rhannu'r wybodaeth a gasglwyd mewn carchar â phartner priodol. Bydd cyflwyno'r system wybodaeth Project Mercury yn darparu llwyfan ar gyfer hyn a dylai carchardai gynllunio ac egluro sut y byddant yn ei defnyddio, ac offer, dulliau a chysylltiadau eraill sydd ganddynt wrth law i gyflawni'r bwriad hwn, gan sicrhau y cydymffurfir â darpariaethau perthnasol Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) 2000[23].

| 1(d) | **Ymdrinnir ag argaeledd cyffuriau a ffonau symudol mewn carchardai** |
|---|---|

Mae argaeledd cyffuriau a ffonau symudol anawdurdodedig mewn carchardai yn atal ymdrechion carchardai i gadw carcharorion a charchardai'n ddiogel, i adsefydlu troseddwr, i leihau aildroseddu, i drin camddefnyddio cyffuriau ac i ddiogelu'r cyhoedd (gan gynnwys unigolion sy'n dioddef fwy nag unwaith dan law carcharor presennol). Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ymdrin â'r ddau fel y nodir yn y strategaethau cenedlaethol ar gyffuriau a throseddau cyfundrefnol. Mae NOMS yn bwriadu parhau i fuddsoddi mewn gwaith i leihau'r ddarpariaeth o gyffuriau a ffonau, gan gynnwys y defnydd lle bo'n briodol o dechnolegau newydd, gweithio'n agos â phartneriaid sy'n gorfodi'r gyfraith i rannu gwybodaeth ac ymdrin â llygredd ymysg staff a datblygu adain ddi-gyffuriau ymhellach.

| 1(dd) | **Gwneir ymdrech i sicrhau bod troseddwyr yn profi'r amgylchedd fel un ddiogel.** |
|---|---|

Dylai fod gan ddarparwyr fesurau i sicrhau bod troseddwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu ffocysu eu sylw ar gyflawni eu dedfryd ac ar adsefydlu a newid. I droseddwyr deimlo'n ddiogel mae'n rhaid iddynt deimlo eu bod yn rhydd rhag ymosodiad a chredu eu bod mewn dwylo diogel. Er mwyn i hyn ddigwydd mae angen i awdurdod gael ei ymarfer yn hyderus a bod troseddwyr yn cael eu rheoli mewn perthynas â'u diogelwch eu hunain a diogelwch a lles pobl eraill.

| 1(e) | **Atelir carcharorion rhag parhau'n droseddol oddi mewn i garchardai.** |
|---|---|

[23] Dylai carchardai nodi wrth ddisgrifio'u gweithgareddau i gyflawni'r bwriad hwn na ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n uwch na'r lefel CYFYNGEDIG uchod mewn ymatebion.

Mae nifer o garcharorion yn ceisio parhau eu gweithgareddau troseddol oddi mewn i'r carchar ac mae NOMS yn benderfynol o rwystro a chanfod hyn cyn belled â phosibl. Mae parhau i droseddu oddi mewn i garchardai'n tanseilio ymdrechion NOMS i ddiogelu'r cyhoedd oddi wrth y carcharorion mae'n eu dal, sy'n disgwyl, yn hollol gywir, na fyddant yn cael eu heffeithio gan ymddygiad carcharorion yn ystod eu hamser yn y ddalfa. Mae systemau, monitro cyfathrebiadau a pherthnasau a rhannu gwybodaeth â phartneriaid yn allweddol, ac mae NOMS yn mynnu bod carchardai'n defnyddio'r rhain er mwyn atal troseddu parhaus yn y ddalfa. Er na eithrir unrhyw fath arbennig o droseddwr o'r bwriad hwn, mae eithafwyr, troseddwyr cyfundrefnol ac aelodau o gangiau yn peri pryder arbennig i NOMS .

| | |
|---|---|
| **2.** | **Cryfhau'r gwaith o integreiddio cyflenwi gwasanaeth rhwng darparwyr a ariennir yn uniongyrchol a rhai a gydgomisiynwyd a phartneriaid ehangach.** |

Mae'r integreiddio gwasanaethau hwn yn bwysig iawn i fwyhau buddsoddiad a gwella canlyniadau i droseddwyr, eu teuluoedd a chymunedau lleol.

| | |
|---|---|
| 2(a) | **Mae tystiolaeth bod cydlynu cyflenwi gwasanaethau yn effeithiol ac integreiddio darparwyr yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yn mwyhau canlyniadau i droseddwyr.** |

Wrth ymateb i'r bwriad hwn, rydym yn disgwyl i ddarparwyr fod yn gallu darparu tystiolaeth a mynegi:

- Gweledigaeth strategol glir, gan gynnwys dealltwriaeth a rennir o ganlyniadau a blaenoriaethau, ar gyfer sut y dylai gwasanaethau alinio i sicrhau'r canlyniadau gorau a chreu gwasanaeth rheoli troseddwyr integredig, di-fwlch
- Cynllun clir a gytunwyd am sut y dylai gwasanaethau ddilyn ac ategu ei gilydd, gan ddarparu parhad gwasanaethau oddi mewn ac ar draws carchardai, ac ymrwymiad clir i hyrwyddo anghenion yr holl ddarparwyr a phartneriaid o dan y contract i'w galluogi i gyflenwi'n effeithiol. Lle mae gweithgaredd masnachol, adeiladir a chynhelir perthnasau masnachol a phartneriaethau cryf
- Arweinyddiaeth sy'n galluogi ac yn integreiddio gwasanaethau'n weithredol, lle mae trefniadau gwaith partneriaeth yn gwella perfformiad ac yn helpu i ddatrys problemau
- Dealltwriaeth o ddyrannu adnoddau, a sut mae cyflenwi a dewisiadau'n effeithio ar fuddsoddiad a gweithgareddau pobl eraill
- Cytundeb ar sut i ddefnyddio a rhannu data a gwybodaeth yn ddiogel, a sut i helpu eraill i ddeall y data a'r wybodaeth hyn

| | |
|---|---|
| 2(b) | **Hyrwyddo'r gwaith parhaus o orchymyn bod rhai sy'n gadael carchar yn cael eu rhoi ar Raglen Waith DWP ar y diwrnod cyntaf a bod unrhyw newidiadau yn y dyfodol drwy gyflwyno Credyd Cynhwysol yn cael eu cyflwyno.** |

Mae carcharorion sydd yn awr yn gymwys i dderbyn Lwfans Ceisio Gwaith yn cael eu gorchymyn i ymuno â Rhaglen Waith DWP o'r diwrnod cyntaf ar ôl eu rhyddhau o'r carchar. Mae hyn yn debygol o effeithio ar dros 30,000 o garcharorion y flwyddyn a bydd yn rhoi cefnogaeth sylweddol i garcharorion ddod yn

aelodau cynhyrchiol o gymdeithas. Disgwylir i bob darparydd carcharol gynnal a datblygu perthnasau, newid y dull o gyflenwi gwasanaeth wrth i niferoedd newid a galluogi ac annog staff y Rhaglen Waith i weithio â throseddwyr. Disgwylir i ddarparwyr hefyd hyrwyddo darparu gwasanaethau er mwyn galluogi hawliadau ymlaen llaw am Gredyd Cynhwysol wrth iddo gael ei weithredu. Mae hyn yn debygol o gynyddu'n sylweddol y nifer o ymyriadau y bydd yn rhaid i staff DWP eu gwneud ac felly'r adnoddau y bydd arnynt eu hangen.

| | | |
|---|---|---|
| 2(c) | **Yn Lloegr - gweithio â GIG Lloegr ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr yn unol â'r Cytundeb Partneriaeth a Chydgomisiynu Cenedlaethol i sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gomisiynwyd gan y GIG (gan gynnwys gwasanaethau camddefnyddio sylweddau clinigol ac anghlinigol) yn y ddalfa yn cefnogi canlyniadau iechyd a chyfiawnder ac maent:**<br>• **Wedi eu goleuo gan Asesiad o Anghenion Iechyd[24] diweddar sy'n cymryd ailwampio'r ystâd warchodol gan gynnwys creu Carchardai Ailsefydlu i ystyriaeth;**<br>• **Yn cefnogi adferiad cynaliadwy o ddibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol a gwell iechyd meddwl gan gynnwys diagnosis deublyg;**<br>• **Yn hybu parhad gofal o'r gymuned i'r ddalfa, rhwng sefydliadau a thrwy borth y carchar mewn partneriaeth â darparwyr newydd gwasanaethau prawf;**<br>• **Wedi eu gweithredu ochr yn ochr ag ymdrechion i gwtogi ar y cyflenwad o gyffuriau ac alcohol i mewn i garchardai a gwyro meddyginiaeth a ragnodwyd.** | |

Dylai troseddwyr fod â mynediad cyson at wasanaethau iechyd a chamddefnyddio sylweddau sydd yn cael eu harwain gan anghenion trwy gydol eu dedfryd, yn unol â'r galw, a dylai'r gwasanaethau hynny fod yn gyfartal i'r rhai sydd ar gael i'r boblogaeth gyffredin. Dylent hefyd ddiwallu anghydraddoldebau iechyd, a chefnogi adsefydlu ac adferiad cynaliadwy o ddibyniaeth a salwch meddwl.

Gall presenoldeb cyffuriau yn y carchar leihau ysgogiad ac ymroddiad carcharorion i fod yn rhydd o gyffuriau a'u gwneud yn llai tebygol o fynychu gwasanaethau cyffuriau. Mae carcharorion sydd eisoes wedi ymgysylltu â thriniaeth mewn mwy o berygl o ddefnyddio cyffuriau os ydynt yn hawdd i'w cael neu os ydynt yn ymgyfathrachu â defnyddwyr cyffuriau eraill. Gall camddefnyddio meddyginiaeth a ragnodwyd hefyd fod yn broblem sylweddol sy'n beryglus i unigolion ac yn peryglu diogelwch a gweithredu'r carchar yn ddiogel.

I gefnogi'r canlyniadau hyn, disgwylir i ddarparwyr carchardai:

- weithio gyda darparwyr a gomisiynwyd gan y GIG ac Awdurdodau Lleol i barhau i ddatblygu a gweithredu trefniadau cyflenwi lleol yn unol â'r Cytundeb Partneriaeth a Chydgomisiynu Cenedlaethol a manyleb y Galluogwyr o Wasanaethau Cenedlaethol a Gydgomisiynwyd.[25] Mae hyn yn cynnwys datblygiad parhaus a gweithredu Cytundebau Cyflenwi Lleol y mae'n rhaid iddynt gymryd i ystyriaeth rôl darparwyr cymunedol newydd yn y dyfodol mewn cefnogi canlyniadau adsefydlu a pharhad gofal trwy borth y carchar.
- weithio gyda Chomisiynwyr NOMS a GIG Lloegr i gyfoethogi a chefnogi unrhyw ail-dendro o wasanaethau iechyd a chamddefnyddio sylweddau mewn sefydliadau
- weithio ar y cyd gyda darparwyr iechyd a chamddefnyddio sylweddau i alinio gweithgaredd i hybu

[24] Mae cyfrifoldeb am gynhyrchu'r Asesiad o Anghenion Iechyd yn nwylo comisiynydd y gwasanaeth iechyd ond dylai Llywodraethwyr a Chyfarwyddwyr Carchardai sicrhau bod y rhain yn gyfredol, defnyddio data sydd ar gael am garchardai ac adlewyrchu cyfansoddiad poblogaeth y sefydliad.

[25] www.justice.gov.uk/downloads/about/noms/directory-of-services/enablers-specification.zip

adferiad o ddibyniaeth gydag ymdrechion i leihau'r cyflenwad o gyffuriau ac alcohol i mewn i garchardai a gwyro meddyginiaeth a ragnodwyd trwy rannu gwybodaeth briodol.

| | |
|---|---|
| 2(ch) | **Yn Lloegr - Gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod troseddwyr a diffynyddion sy'n oedolion gydag anghenion gofal a chefnogaeth wedi eu hadnabod yn briodol, bod eu hanghenion wedi eu hasesu a'u bod yn cael eu cefnogi i fyw'n weddus ac mor annibynnol â phosibl; a bod trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer parhad gofal lle mae unigolyn yn symud.** |

Gall oedolion yn y system cyfiawnder troseddol fod ag anghenion gofal a chefnogaeth, gan gynnwys anghenion am ofal personol fel cymorth gydag ymolchi, gwisgo a mynd i a defnyddio'r toiled. Y prif grwpiau a effeithir yw troseddwyr hŷn a throseddwyr gydag anawsterau neu anableddau corfforol neu addysgiadol, ond gall unrhyw unigolyn fod â neu ddatblygu angen am ofal a chefnogaeth. Gellir penodi Awdurdodau Lleol i asesu anghenion gofal a chefnogaeth a gallent ddarparu neu gaffael gwasanaethau i ddiwallu anghenion dilys pobl a garcharwyd a rhai sy'n preswylio mewn Safleoedd Cymeradwy[26].

Disgwylir i ddarparwyr carchardai ymgysylltu â Chomisiynwyr NOMS, Comisiynwyr Gofal Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol a Chomisiynwyr Iechyd i gynllunio a chefnogi'r gwaith o gaffael gwasanaethau newydd gan Awdurdodau Lleol o 2015 ac i alluogi parhad gofal rhwng carchardai ac ar gyfer y rhai a ryddheir.

| | |
|---|---|
| 2(d) | **Yn Lloegr - Gweithio gydag awdurdodau lleol i hybu cynnwys teuluoedd troseddwyr ac i sicrhau'r lles pennaf iddynt.** |

Mae'n bwysig parhau i ddiwallu anghenion cyflenwi craidd i gefnogi teuluoedd troseddwyr gan ein bod yn cydnabod y gallai cefnogi a chynnal cysylltiadau rhwng troseddwyr a'u teuluoedd helpu i leihau aildroseddu. Drwy wneud hyn gellir cyfrannu at fynd i'r afael â throseddu rhyng-genedlaethol gan ateb y canlyniadau gwael a wynebir gan blant troseddwyr. Dylai carchardai gysylltu ag awdurdodau lleol, rhannu data pan fo'n briodol a defnyddio'r cyfle i rannu ymarfer da a datblygu ymyriadau effeithiol.

Ymhellach, mae pwysigrwydd gwaith mewn partneriaeth i gefnogi teuluoedd sydd â'r angen mwyaf yn cael ei gydnabod fwyfwy ac mae gan asiantaethau cyfiawnder troseddol rôl allweddol i'w chwarae. Mae'r rhaglen *The Troubled Families* yn Lloegr yn gyfle pwysig i NOMS. Mae nifer o aelodau'r teuluoedd hyn un ai eisoes yn y system cyfiawnder troseddol neu mewn perygl o fod yn rhan o'r system. Mae'n bosibl y bydd ymyrryd yn bositif ym mywydau'r teuluoedd hyn yn lleihau'r effaith ar alwadau am wasanaethau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

| | |
|---|---|
| 2(dd) | **Yn Lloegr - Parhau i wella mynediad at lwybr o wasanaethau newydd a chyfredol i droseddwyr ag anhwylderau personoliaeth difrifol. Targedir gwasanaethau'n benodol at ddynion sy'n cyflwyno risg uchel o niwed difrifol i eraill a merched sy'n cyflwyno risg uchel o gyflawni troseddau treisgar, troseddau rhyw neu ddifrod troseddol pellach. Cydgomisiynir gwasanaethau gyda Chomisiynu Arbenigol GIG Lloegr i** |

[26] Mae'r Mesur Gofal a gyflwynwyd o flaen y Senedd ym Mai 2013 yn egluro'r fframwaith ar gyfer cyfrifoldeb i ymgymryd ag asesiadau o angen am ofal a chefnogaeth, ac i ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion dilys uwchben trothwy a fydd yn cael ei osod yn genedlaethol. Bydd diwygiadau i'r system gofal cymdeithasol yn Lloegr yn dilyn archwiliad terfynol y Mesur Gofal yn y Senedd a disgwylir eu gweithredu o 2015.

| | |
|---|---|
| | **gefnogi canlyniadau o ran iechyd a chyfiawnder.** |

Bydd y llwybr anhwylder personoliaeth (PD) yn gwella adnabyddiaeth ac asesiad o droseddwyr yn gynnar yn eu dedfryd, yn cynyddu'r gallu i'w trin, ac ehangu eu rheolaeth o risg, ac felly yn helpu i ostwng y risg o niwed difrifol i eraill a thebygolrwydd o ailadrodd aildroseddu rhyw a threisgar.

Y blaenoriaethau allweddol yw sicrhau bod troseddwyr yn cael eu hadnabod a'u cefnogi i gael mynediad at gymhwysedd arbenigol pan ddaw ar gael. Mae cynlluniau hyd at 2015 yn cynnwys hyd at chwech o wasanaethau triniaeth PD newydd mewn carchardai, i ddynion, hyd at 15 o wasanaethau dilyniant ar draws y system, ac, ar gyfer merched, gwasanaethau triniaeth PD arbenigol ychwanegol.

| | |
|---|---|
| 2(e) | **Yn Lloegr - Alinio gwasanaethau â darparwyr y Gwasanaeth Dysgu a Sgiliau i Droseddwyr (OLASS 4) mewn carchardai. Gosod trefniadau gweithio mewn partneriaeth leol a phennu pa gyfleoedd dysgu a gynigir gan bob carchar. Cefnogi mentrau i wneud carchardai'n fannau gwaith a chryfhau'r ffocws ar gyflogadwyedd. Ehangu mynediad i ddysgu yn y brif ffrwd a gwasanaethau cyflogi ar gyfer troseddwyr wrth iddynt ddychwelyd i'r gymuned.** |

Mae gan sgiliau a chyflogadwyedd rôl bwysig i'w chwarae mewn lleihau aildroseddu a throi bywydau pobl o gwmpas. Mae NOMS, ynghyd ag ystod o bartneriaid wedi ei ymrwymo i greu system fwy effeithiol o helpu pob carcharor i dderbyn a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gystadlu am waith cynaliadwy.

Cyflwynwyd Gwasanaeth Dysgu a Sgiliau Troseddwyr (OLASS 4) newydd, a gomisiynwyd ar y cyd gan NOMS a'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau yn 2012. Blaenoriaeth allweddol y Gwasanaeth yw asesu anghenion dysgu wrth dderbyn carcharorion gan roi blaenoriaeth i Fathemateg a Saesneg, pe bai anghenion perthnasol yn cael eu hadnabod.

Mae'n rhaid i garchardai sicrhau eu bod wedi sefydlu trefniadau gweithio mewn partneriaeth leol, gryf fel y gallant benderfynu, ar lefel leol, pa gyfleoedd dysgu fydd yn cael eu cynnig yn eu carchardai. Yn ystod y flwyddyn olaf yn y carchar, bydd y ffocws yn symud i baratoi ar gyfer gwaith. Drwy ddefnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur, bydd hyfforddiant yn cael ei deilwrio i ddiwallu anghenion cyflogwyr yn yr ardaloedd lle rhyddheir y carcharorion.

I gefnogi'r agenda 'gwaith yn y carchar', anogir carchardai i sicrhau ymgysylltiad â darparwyr OLASS 4 a chynlluniau a gefnogir gan gyflogwyr i sicrhau bod ystod o sgiliau ar gael ac yn cael eu cyflenwi i sicrhau bod troseddwyr yn barod am swydd.

Bydd darparwyr yn ymgysylltu ag ystod o bartneriaid, yn arbennig yr Adran Busnes Menter a Sgiliau (BIS) a'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau, yr Asiantaethau Arolygu a Gwella Ansawdd (er enghraifft Ofsted), yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), y Ganolfan Byd Gwaith, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r darparwyr NOMS sy'n cyd-ariannu, er mwyn datblygu ansawdd a chyfanswm y ddarpariaeth addysgol i wella sgiliau a chyflogadwyedd troseddwyr.

Dylid bod â threfniadau hefyd i reoli parhad darpariaeth 'trwy'r porth' ar lefel lleol yn effeithiol.

| 2(f) | **Yn Lloegr - Atgyfnerthu gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod troseddwyr yn cael mynediad at gefnogaeth a gwasanaethau i baratoi ar gyfer gwaith ac i alluogi mynediad ato.** |
|---|---|

Bydd NOMS yn parhau i alinio strategaeth genedlaethol ymgysylltu â chyflogwyr gyda gweithgaredd lleol ble bynnag mae hynny'n bosibl i fwyhau cyfleoedd i droseddwyr. Dylai darparwyr hefyd ddatblygu trefniadau gweithio ar y cyd ymhellach gydag amrywiaeth o bartneriaid a darparwyr gwasanaeth gan gynnwys y Ganolfan Byd Gwaith, darparwyr Rhaglen Waith DWP, cyrff sector gwirfoddol a'r sector preifat. Dylid rhoi ystyriaeth neilltuol i weithio mewn ffordd gydweithredol a chydgysylltiol ac i ddatblygu partneriaethau real, ymarferol gyda chyflogwyr lleol sy'n datblygu i gyfleoedd gwaith drwy ROTL (lle bo'n briodol). Drwy gryfhau perthnasau rhwng Sefydliad Cydgyllido NOMS (CFO)[27] a darpariaeth sy'n bod eisoes neu ddarpariaeth brif ffrwd (gan gynnwys y Rhaglen Adsefydlu a Rhaglen Waith DWP) bydd NOMS yn sicrhau y bydd troseddwyr yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth addas wedi ei theilwra i'w hanghenion. Mae holl gontractau NOMS CFO wedi eu dyfarnu am y cyfnod hyd at Ragfyr 2014, ond mae cyllid ychwanegol wedi ei gadarnhau am y cyfnod 2014-20.

| 2(ff) | **Yng Nghymru - Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'i hasiantaethau datganoledig i sicrhau y bydd gwasanaethau i droseddwyr a gomisiynwyd yn uniongyrchol gan NOMS a chyfrifoldebau datganoledig Llywodraeth Cymru yn cael eu halinio er mwyn mwyhau canlyniadau i droseddwyr, eu teuluoedd a chymunedau lleol.** |
|---|---|

Bydd gwaith gyda Llywodraeth Cymru yn cynnwys ffocws penodol ar:

- Fwyhau cyfleoedd comisiynu ar y cyd er mwyn cyflawni canlyniadau a rennir drwy weithredu'r agenda adsefydlu trosiannol ynghyd â chynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraethu Cymru;
- Parhau i wella canlyniadau adleoli ac adsefydlu ar gyfer carcharorion a throseddwyr, trwy ddulliau mwy agos a mwy integredig rhwng darparwyr iechyd a chyfiawnder troseddol, yn arbennig ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl, rhai sy'n camddefnyddio sylweddau, a rhai ag anhwylderau personoliaeth ac anableddau dysgu;
- Sicrhau alino â gofynion Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) fel y gall anghenion gofal cymdeithasol penodol carcharorion a throseddwyr mewn anheddau cymeradwy gael eu diwallu fel rhan o'u hailsefydlu cyffredinol;
- Hybu cynhwysiant, a mwyhau lles i deuluoedd troseddwyr fel rhan o ddull integredig tuag at adsefydlu a lleihau troseddu;
- Cefnogi ymgysylltu lleol rhwng gwasanaethau i sicrhau bod troseddwyr sy'n camddefnyddio sylweddau, troseddwyr sy'n sâl yn feddyliol a throseddwyr â nodweddion bregus eraill gan gynnwys anawsterau addysgiadol ac anhwylder personoliaeth yn cael mynediad at wasanaethau priodol yn ystod y pwynt cyswllt cynharaf posibl â'r system cyfiawnder troseddol;

[27] http://co-financing.org/index.html

- Cryfhau gwaith partneriaethau i sicrhau bod gan droseddwyr gwryw a benyw fynediad i'r gefnogaeth a'r gwasanaethau iawn e.e. llety, cyngor am ddyledion i gefnogi newid yn eu hymddygiad a thuag at adsefydlu ac adleoli llwyddiannus;
- Cefnogi merched bregus sydd mewn perygl o aildroseddu a gwella mynediad i wasanaethau cefnogi priodol i leihau'r nifer o ferched sy'n aildroseddu;
- Comisiynu gwasanaeth ar y cyd yng Nghymru i leihau ac adfer niwed o gamddefnyddio sylweddau sy'n seiliedig ar anghenion, i gefnogi eu hailsefydlu'n gyffredinol;
- Mwyhau canlyniadau dysgu a sgiliau i garcharorion, trwy wella canlyniadau adleoli cynaliadwy, gan gynnwys cynyddu'r niferoedd sy'n gallu mynd i mewn i gyflogaeth a'r rhai sy'n parhau o dan hyfforddiant ar gyfer cyflogaeth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

| 3. | Cyflenwi gwasanaeth effeithiol ac o ansawdd |
|---|---|

Dylai cyflenwi gael ei fwydo gan dystiolaeth, yn effeithiol, gyda sicrwydd ansawdd, wedi ei dargedu'n dda, oddi mewn i isafswm y gofynion fel y nodwyd yn y fanyleb, cyfarwyddiadau a chontractau. Mae'n rhaid i wasanaethau fod o'r ansawdd priodol a'u cyflenwi yn y ffordd fwyaf effeithiol i gael y gwerth gorau i'r trethdalwr.

| 3(a) | **Targedu adnoddau ar ymyriadau a gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n debygol o gyflenwi'r canlyniadau gorau am y buddsoddiad. Mae hyn yn cynnwys targedu ffactorau a welir i fod yn perthyn i ganlyniadau a fwriadwyd gan NOMS a defnyddio cynllun gwasanaeth a fydd yn effeithiol gyda'r grwpiau sy'n ei dderbyn.** |
|---|---|

Wrth gyflenwi gwasanaethau a fwydir gan dystiolaeth, disgwylir i ddarparwyr gwasanaethau:

- Dargedu ffactorau a ddangoswyd i fod yn berthnasol i ganlyniadau maent yn gyfrifol am eu cyflenwi
- Defnyddio cynllun gwasanaeth a fydd yn effeithiol â'r grŵp a fydd yn derbyn y gwasanaeth (yn defnyddio dulliau a thechnegau cyfranogol effeithiol, yn cynnwys y swm mwyaf o gyswllt â'r troseddwr, yn ymgysylltu â'r troseddwr ac yn ysgogi newid, yn ffocysu ar ddatblygu ac ymarfer sgiliau perthnasol, yn darparu ar gyfer dulliau gwahanol o ddysgu a nodweddion unigol)
- Defnyddio staff sy'n gymwys yn y gwaith penodol maent yn ei gyflenwi a darparu cefnogaeth barhaus i'r staff hyn i osgoi unrhyw newid yn ansawdd y ddarpariaeth.

Gellir canfod mwy o wybodaeth am y dystiolaeth mae NOMS yn ei defnyddio i oleuo ein dewisiadau comisiynu yn: <http://www.justice.gov.uk/about/noms/commissioning/evidence-based-commissioning>

| 3(b) | 3(b) **Bod â phrosesau sicrhau ansawdd cryf yn bodoli er mwyn sicrhau bod gwasanaethau troseddwyr (i) yn cael eu cyflenwi fel y'u bwriadwyd (h.y. gyda gonestrwydd ac fel y'u cynlluniwyd a'u dyluniwyd) a'u bod (ii) yn effeithiol.** | |
|---|---|---|

Derbynnir bellach bod y tebygolrwydd o ennill canlyniadau llwyddiannus yn dibynnu ar ansawdd y cyflenwi, a bydd sefydlu prosesau i fonitro ansawdd yn gwella canlyniadau. Dylai darparwyr felly fod â threfniadau sicrhau ansawdd cryf ac effeithiol yn eu lle y gallant eu defnyddio i weld tystiolaeth o ansawdd parhaus eu

gwasanaeth. Dylai hyn gynnwys dangos bod eu gwasanaeth yn cael ei gyflenwi yn onest ac fel y cytunwyd, a'i fod yn cael yr effaith a fwriadwyd. Dylai darparwyr hefyd sicrhau bod unrhyw ymrwymiadau uniongyrchol i ansawdd mewn cytundebau a chontractau masnachol yn cael eu monitro a'u rheoli a bod unrhyw waith cywiro yn cael ei wneud lle bo angen.

Lle mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a gydgomisiynwyd (fel y Gwasanaeth Dysgu a Sgiliau Troseddwyr) dylai darparwyr weithredu a monitro prosesau sicrhau ansawdd lleol i sicrhau ansawdd parhaus y cyflenwi.

| | | |
|---|---|---|
| 3(c) | **Adolygu cyflenwi pan fydd yn rhagori ar isafswm y gofynion a gyflwynwyd ym Manyleb Gwasanaeth NOMS.** | |

O ystyried y cyd-destun adnoddau mae NOMS yn gweithio ynddo, mae angen i ni fod yn glir am weithgaredd a ddylai ddod i ben. Mae'n fwriad gennym fod pob darparwr yn adnabod y meysydd cyflenwi hynny sy'n rhagori ar uchafswm y gofynion a gyflwynir ym manyldeb gwasanaeth NOMS, adolygu'r cyflenwi hwnnw ac, oni bai bod tystiolaeth rymus i gefnogi parhau, cytuno ar gynlluniau i ddod â'r gweithgaredd hwn i ben. Lle mae darparwyr eisiau parhau â gweithgareddau byddwn eisiau gweld rhesymeg glir gyda thystiolaeth lle bo'n briodol.

| | |
|---|---|
| **4.** | **Sicrhau bod cyflenwi yn cyfateb i boblogaeth, diben a chanlyniadau NOMS** |

Dylai pob darparwr feddwl am gyfateb ei gyflenwi i'w boblogaeth, diben a chanlyniadau.

| | |
|---|---|
| 4(a) | **Defnyddio segmentu a ffynonellau data lleol i dargedu adnoddau ar gyfer gwasanaethau adsefydlu, rheoli achosion a rheoli risg lle maent yn cyflenwi'r canlyniadau gorau am y buddsoddiad.** |

### i. Egwyddorion Targedu Craidd

Er mwyn mwyhau effaith buddsoddiad, dylai'r gwaith o dargedu gwasanaethau, ymyriadau, rheoli risg ac achosion:

- Gael ei oleuo gan asesiad priodol o risg ac anghenion
- Fod yn gymesur â'r raddfa o risg mae'r troseddwr yn ei ddangos
- Fod wedi'i alinio i natur y risg a ddangosir gan y troseddwr (er enghraifft, risg o unrhyw aildroseddu treisgar, aildroseddu rhyw, niwed difrifol)
- Fod wedi ei ffocysu ar ffactorau sydd wedi eu dangos i ddylanwadu ar y tebygolrwydd o aildroseddu yn y rhai sy'n derbyn y gwasanaeth
- Fod wedi'i alinio â gwasanaethau eraill a ddarperir gan asiantaethau eraill

Dylai hefyd fod wedi ei alinio â bwriadau comisiynu eraill, fel bod gwasanaethau:

- Yn ymatebol i anghenion ac amgylchiadau troseddwyr sy'n effeithio ar eu profiad o adsefydlu (gan gynnwys rhyw, oed, ethnigrwydd, gweler hefyd bwriad 5). Yn arbennig, er bod dynion a merched yn rhannu'r un anghenion criminogenig yn gyffredinol, gall rhagfynegyddion arbennig aildroseddu fod yn wahanol yn ôl oed, rhyw a math o drosedd.
- Wedi eu ffocysu ar wasanaethau a oleuir gan dystiolaeth fel bod gwasanaethau'n cyflenwi'r canlyniadau gorau ar gyfer y rhai sy'n eu derbyn.

Mae'r Ddogfen Gymar Tystiolaeth a Segmentu i Fwriadau Comisiynu NOMS o 2014[28] yn darparu gwybodaeth fwy manwl am dargedu adnoddau yn effeithiol a dylid ei darllen ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

I gefnogi'r egwyddorion targedu craidd hyn, darperir canllawiau mwy manwl, isod.

### ii. Targedu adnoddau'n seiliedig ar y 'tebygolrwydd o unrhyw ail euogfarnu'

Dull craidd targedu NOMS ar gyfer rheoli achosion ac ymyriadau a gwasanaethau adsefydlu yw targedu adnoddau'n seiliedig ar y 'tebygolrwydd o unrhyw ail euogfarnu'.

**Dylai'r swm o reoli achosion ac ymyriadau a gwasanaethau adsefydlu fod yn gymesur â'r 'tebygolrwydd o unrhyw ail euogfarnu' (fel y diffinnir ym mand sgorio OGRS). Gweler y tabl ar vii ar dudalen 30 am ganllaw manwl.**

Mesurir y tebygolrwydd o ail euogfarnu gan y sgôr OGRS a gellir rhannu ein poblogaeth yn fandiau, yn ddibynnol are eu tebygolrwydd o ail euogfarnu, o debygolrwydd isel (sgôr OGRS o dan 25%) i eithriadol o uchel (sgôr OCRS uwch na 90%). Po fwyaf y tebygolrwydd o ail euogfarnu, y mwyaf o adnoddau rydym eu hangen i fuddsoddi I bobl gael eu hatal rhag troseddu.

Mae'r troseddwyr â'r sgorau OGRS uchaf yn ein system - y rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu hail euogfarnu ar ôl eu rhyddhau - yn tueddu i fod wedi cyflawni eu hail euogfarn a mynd ymlaen i gael eu haileuogfarnu o droseddau fel dwyn o siopau a byrgleriaeth.

### iii. Targedu adnoddau'n seiliedig ar risg o niwed difrifol

Mae bod â sgôr OGRS uchel (uchod) yn dra gwahanol i fod yn risg uchel o niwed. Dull targedu NOMS ar gyfer gweithgaredd rheoli risg yw targedu adnoddau'n seiliedig ar y risg o niwed difrifol a gyflwynir gan y troseddwr.

**Gan hynny, dylai swm a natur y gweithgaredd rheoli risg fod yn gymesur â'r lefel o niwed difrifol a gyflwynir gan y troseddwr.**

Ar hyn o bryd, pennir y 'risg o niwed difrifol (ROSH)' gan yr asesiad ROSH yn OASys, ac fe'i goleuir hefyd gan RM2000/OSP, OVP a theclynnau arbenigol eraill fel SARA a HCR-20 lle bo'n briodol ac ar gael.

Mae troseddwyr niwed uwch yn cynnwys troseddwyr rhyw, rhai troseddwyr treisgar, a rhai ar ddedfrydau amhenodol. Ar gyfer y troseddwyr hyn, yn ogystal â deall pa mor debygol maent o gyflawni unrhyw fath o

[28] www.justice.gov.uk/about/noms/commissioning/evidence-based-commissioning

aildrosedd, mae hefyd o ddefnydd i ddeall eu risg penodol o ail euogfarnu treisgar (gweler v isod) neu ail euogfarnu rhyw (gweler iv isod), ac i ddeall yr effaith o fod ar ddedfryd amhenodol (gweler vi isod) lle mae'r risg yn cael ei archwilio'n llawer mwy gofalus cyn rhyddhau.

### iv. Targedu adnoddau adsefydlu ar gyfer troseddwyr rhyw yn seiliedig ar y tebygolrwydd o ail euogfarniad rhyw

Mae troseddwyr rhyw yn aml yn debygolrwydd isel o ail euogfarniad, ond mae natur niweidiol posibl eu troseddu yn cyfiawnhau'r dull comisiynu canlynol:

**Pob troseddwr rhyw:**

1) Dylai troseddwyr gwryw gyda throsedd indecs rhyw (neu unrhyw drosedd ag elfen rhyw glir) gael eu hasesu ymhellach gyda rhagfynegydd ail euogfarnu rhyw fel RM2000/s neu OSP i adnabod eu tebygolrwydd o ail euogfarniad rhyw.
2) Dylai dwysedd y rheolaeth achos fod yn gymesur â'r lefel o risg o ail euogfarnu a gyflwyna'r unigolyn.
3) Gall MAPPA fod yn effeithiol i reoli risg ar gyfer troseddwyr rhyw a dylid dilyn canllaw MAPPA. Rheolir troseddwyr â throsedd rhyw flaenorol hefyd o dan MAPPA hyd nes bod eu gofyniad hysbysu yn dod i ben.
4) Cyflenwir profion polygraff fel rhan orfodol o amodau trwyddedau ar gyfer rhai troseddau rhyw.
5) Ni ddylid cyfeirio'r rhai sydd â throseddau sy'n ymwneud yn unig â meddu ar, gwneud, rhannu neu ddyrannu delweddau anweddus o blant at ymyriadau troseddau rhyw archrededig yn y ddalfa waeth beth fo'u lefel o risg ar OSP neu RM2000/s.
6) Gan nad oes unrhyw ragfynegyddion ar gyfer **merched** â throseddau rhyw, dylai pob merch ei thrin fel achos unigol. Mae fframwaith a gymeradwyir NOMS ar gyfer gweithio â throseddwyr rhyw benywaidd ar gael i roi arweiniad i'r gwaith hwn.

**Troseddwyr rhyw gyda risg uchel o ail euogfarnu rhyw (h.y. yn isel ar RM2000/s neu OSP):**

1) Dyluniwyd y rhaglenni archededig i leihau aildroseddu rhyw ac ni ddylid eu targedu at droseddwyr gyda risg isel o ail euogfarniad rhyw (waeth beth fo'u sgôr OGRS).
2) Yr eithriad i hyn yw troseddwyr rhyw ag IQ isel neu sydd wedi eu heuogfarnu o ladd ar sail rhyw, a allai'n gyffredinol fod â ffactorau risg mwy deinamig ac felly'n gwarantu mwy o driniaeth. Gan hynny, dylai troseddwyr sydd wedi lladd gydag elfen rhyw amlwg a'r rhai ag anabledd deallusol gael mynediad at raglenni triniaeth troseddwyr rhyw a addaswyd/craidd.

**Troseddwyr rhyw gyda risg canolig neu uchel o aileuogfarn rhyw (h.y. risg canolig i uchel ar RM2000/s neu risg uwch ar OSP):**

1) Dylai rhaglenni triniaeth troseddwyr rhyw craidd gael eu targedu at droseddwyr sydd o risg canolig neu uchel o aileuogfarn rhyw.
2) Mae Cylchoedd Cefnogaeth ac Atebolrwydd sy'n gysylltiedig â Circles UK yn werthfawr i droseddwyr sydd o risg canolig neu uchel o aileuogfarn rhyw.
3) Dylai troseddwyr sydd o risg uchel iawn o aileuogfarn rhywiol dderbyn y rhaglenni o ddwysedd uchaf fel SOTP Estynedig.
4) Dylid ystyried meddyginiaeth ar gyfer troseddwyr sydd o risg uchel neu uchel iawn o aileuogfarn rhyw ac sydd â lefelau uwch o ddiddordeb rhyw neu ffantasïau trosedd rhyw cymelliadol.

### v. Targedu adsefydlu ar gyfer troseddwyr treisgar yn seiliedig ar y tebygolrwydd o aileuogfarniad treisgar:

**Ar gyfer troseddwyr â throsedd indecs treisgar:**

1) Yn gyffredinol, mae troseddwyr sydd â sgorau OGRS isel (0-24%) yn tueddu hefyd i fod â risg isel o drais. Yn gyffredinol, ni fydd troseddwyr yn y band OGRS isaf hwn angen unrhyw asesiad o risg trais pellach. Yr eithriad yw achosion unigol lle mae'n gwneud synnwyr i gwblhau asesiad trais yn seiliedig ar wybodaeth am yr achos.
2) Ar gyfer troseddwyr treisgar â sgôr OGRS (25%+), dylai'r risg o drais yn y dyfodol gael ei adnabod drwy ragfynegydd (h.y. OVP sy'n rhan o OASys neu SARA os dynodir trais yn erbyn partner agos).
3) Dylai'r maint o risg a rheolaeth achos fod yn gymesur â'r lefel o drais mae'r unigolyn yn ei gyflwyno.
4) Dylai'r dwysedd o ymyriadau trais gyfateb y lefel risg trais y troseddwr, gyda rhaglenni o'r dwyster uchaf (fel CHROMIS a SCP sydd â mwy na 40 o sesiynau) yn cael eu neilltuo ar gyfer y rheiny ar y risg uchaf o aildroseddu treisgar.

5) Gall MAPPA fod yn effeithiol wrth reoli risg ar gyfer troseddwyr treisgar a dylid dilyn canllawiau MAPPA.
6) Mae egwyddorion tebyg yn berthnasol i ferched a dynion a euogfarnwyd o drais. Ond mae merched yn dueddol o gyflawni ymosodiadau llai niwediol na dynion hyd yn oed pan mae tebygolrwydd uchel y byddant yn aildroseddu. Gan hynny, mae eu risg o niwed yn gyffredinol yn llai nag ar gyfer dynion treisgar.

## vi. Targedu adnoddau ar gyfer Carcharorion ar Ddedfrydau Amhenodol (Islau)

**Ar gyfer Carcharorion ar Ddedfrydau Amhenodol, mae'r canllawiau yn i, i v. yn berthnasol, ond yn ychwanegol:**

1) Mae angen i ISPau dderbyn rheolaeth achos digonol i'w galluogi i fynd ymlaen tuag at ryddhau diogel gan y Bwrdd Parôl. Dylai rheoli achos fod ar ei uchaf pan mae ISP yn ôl-dariff a/neu ddim yn mynd yn ei flaen mewn gwrandawiadau Parôl.
2) Dylai ymyriadau achrededig gael eu targedu at ISPau yn unig pan mae troseddwr yn cwrdd â meini prawf risg ac angen y rhaglen. Gellir gwneud eithriadau lle mae'r troseddwr o risg is nag y mae'r meini prawf eu hangen ond y rhaglen yw'r unig opsiwn ymarferol i'w galluogi i fynd ymlaen drwy eu dedfryd.
3) Dylid rhoi blaenoriaeth mynediad i ISPau sy'n cwrdd â meini prawf y rhaglen achrededig, gan gymryd i ystyriaeth pa mor agos y maent i'w tariff.

## vii. Targedu adnoddau yn seiliedig ar y tebygolrwydd o unrhyw aileuogfarn

| **Tebygolrwydd o aileuogfarn** | **Dylid defnyddio'r canllaw hwn <u>yn gyfunol â'r</u> egwyddorion craidd a'r canllaw targedu uchod.** |
|---|---|
| **Pob troseddwr** | **Dylai pob troseddwr, waeth beth fo'r band OGRS fod â mynediad i'r cynnig adsefydlu craidd (a osodwyd allan yn y Fanyleb Yn y Ddalfa y Gwasanaethau Ailsefydlu).** Mae hyn yn gorfodi sefydliadau i:<br>• Sicrhau bod staff yn ateb agweddau, meddylfryd ac ymddygiadau'r troseddwr trwy ryngweithio pro-gymdeithasol ac ymgysylltu (allbwn 4: gweler hefyd Bwriad Comisiynu 1a, 1b a 2a).<br>• Sicrhau bod staff yn cefnogi ac annog troseddwyr i ymgysylltu â gwasanaethau adsefydlu a'u gwneud yn ymwybodol mai eu cyfrifoldeb hwy yw gwneud hyn (allbynnau 1 a 2: gweler hefyd Bwriad Comisiynu 1a, 1b a 2a)<br>• Mae'r cynnig ailsefydlu craidd hefyd yn cydnabod yr amharu ar gyfrifoldebau domestig ac eraill a ddaw yn sgil carcharu a'r rhwystrau i ail-integreiddio mae'r rhan fwyaf o droseddwyr yn eu hwynebu. Mae'n cynnwys darparu cefnogaeth i helpu i orchfygu'r problemau hyn; er enghraifft, mae'n hyrwyddo mynediad at wasanaethau i ddiogelu/rheoli/cynnal llety a chyflogaeth addas; i wasanaethau sy'n ateb problemau rheoli cyllid personol a lles teuluol a chefnogi angen ac mae'n sicrhau cywerthedd mynediad at wasanaethau iechyd ac yn y gymuned a mynediad at wasanaethau arbenigol fel y rhai ar gyfer anghenion cyffuriau ac alcohol, cam-drin yn y cartref ac ar gyfer gweithwyr rhyw (allbynnau 12-19).<br><br>**Yn gyffredinol, er mwyn cwrdd â chanlyniadau blaenoriaethol NOMS, dylai gwasanaethau sy'n cyfrannu at leihau aildroseddu neu ddiogelu'r cyhoedd ac sy'n mynd ymhellach na'r cynnig adsefydlu craidd, gael eu targedu yn unol â'r risg (gweler isod)** |
| **Tebygolrwydd isel o unrhyw aileuogfarn: OGRS 0-24%** | Mae troseddwyr â thebygolrwydd isel o unrhyw aileuogfarn yn annhebygol o elwa o ymyriadau ailsefydlu ychwanegol a lefelau uwch o reoli achosion, ac mewn rhai amgylchiadau, gall y rhain fod yn niwediol. Dylai buddsoddiad mewn troseddwyr yn y band OGRS hwn felly sicrhau bod y gwasanaethau craidd a'r dulliau a restrwyd yn y blwch uchod mewn lle.<br>**Peidier â buddsoddi mewn:**<br>1) Gweithgaredd rheoli achos dwys.<br>2) Gweithgaredd rheoli risg dwys ac eithrio ar gyfer troseddwyr mae eu risg o niwed difrifol ar eu rhyddhau'n uchel.<br>3) Ymyriadau a gwasanaethau adsefydlu sy'n mynd ymhellach na'r 'cynnig adsefydlu craidd'. |
| **Tebygolrwydd canolig o unrhyw aileuogfarn: OGRS 25-49%** | Mae troseddwyr yn y band risg hwn yn debygol o elwa rhyw gymaint ar lefelau uwch o reoli achos a gwasanaethau adsefydlu ychwanegol. Ond yng nghyd-destun adnoddau cyfyngedig nid ydynt yn grŵp â blaenoriaeth a dylid cymryd y camau canlynol.<br>**Buddsodder mewn:**<br>1) Rheoli achos gyda chyffyrddiad ysgafn i wirio dilyniant a chynnal ysgogiad.<br>2) Gwasanaethau adsefydlu ac ymyriadau ychwanegol byrrach (fel canllaw cyffredinol, |

| | |
|---|---|
| | rhaglenni o lai nag 18 sesiwn) sy'n unol ag egwyddorion ymyriadau effeithiol ac maent yn cyfateb i angen. Ond dylai ymyriadau o'r fath gael eu darparu dim ond os nad ydynt yn bygwth adnoddau a fyddai fel arall wedi eu cyfeirio at droseddwyr o risg uwch.<br>3) Mwy o ymyriadau adsefydlu o hyd cymedrol sy'n mynd ymhellach na'r 'cynnig adsefydlu craidd' (fel canllaw cyffredinol, rhaglenni grŵp o tua 18 i 40 sesiwn o hyd, gan gynnwys rhaglenni achrededig fel TSP a RESOLVE) cyn belled ac nad ydynt yn bygwth adnoddau a fyddai fel arall wedi eu cyfeirio at droseddwyr o risg uwch.<br>4) Cyfarfodydd wyneb yn wyneb Dioddefwr-Troseddwr (Cyfiawnder Adferol) ar gyfer troseddau lle mae dioddefwr clir a'r dioddefwr yn awyddus i gymryd rhan.<br>**Peidier â buddsoddi mewn:**<br>5) Rheoli achos dwys<br>6) Gweithgaredd rheoli risg dwys ac eithrio ar gyfer troseddwyr mae eu risg o niwed difrifol ar eu rhyddhau'n uchel neu'n uchel iawn.<br>7) Ymyriadau a rhaglenni adsefydlu hwy.<br>8) Ymyriadau neu wasanaethau lluosog (fesul troseddwr) sy'n ateb yr un anghenion. |
| **Tebygolrwydd uchel ac uchel iawn o unrhyw aileuogfarn: OGRS 50-74% a OGRS 75-89%** | Mae troseddwyr ar debygolrwydd uchel ac uchel iawn o unrhyw aileuogfarn yn elwa o wasanaethau ac ymyriadau ailsefydlu ychwanegol, a lefelau uwch o reoli achos strwythuredig.<br>**Buddsodder mewn:**<br>1) Gweithgaredd rheoli achos dwys, ar lefel sydd, yn fras gymesur â'r sgôr OGRS, gan gynnwys amser goruchwyliaeth un i un i gydnabod cyrhaeddiad, ysgogi, cynllunio ar gyfer newid positif a chyfuno dysgu oddi wrth ymyriadau.<br>2) Gweithgaredd rheoli risg cymesur i ateb y risg o unrhyw aileuogfarn a hefyd, lle yr asesir risg o niwed difrifol ar ryddhau yn 'uchel' neu'n 'uchel iawn'.<br>3) Gwasanaethau ac ymyriadau adsefydlu a all dystiolaethu eu heffeithiolrwydd o leihau aildroseddu a'u cyfateb i angen. Dylai rhaglenni sgiliau gwybyddiaeth (fel y Rhaglen Sgiliau Meddwl) gael eu targedu'n unig at droseddwyr gyda'r mathau o drosedd indecs o 'drais' 'rhyw', 'cyffuriau' ac 'arall', sydd wedi eu harddangos i elwa. Mae'r rhan fwyaf o droseddwyr â chollfarnau am ladrata a throseddau o ddwyn yn annhebygol o elwa o raglenni sgiliau gwybyddiaeth.<br>4) Triniaeth yn ymdrin â'r defnydd o gyffuriau ar gyfer troseddwyr sy'n dwyn, lle sbardunir eu troseddu gan gamddefnyddio cyffuriau, yn arbennig lle mae eu heuogfarn am ddwyn neu ddwyn o siopau.<br>5) Cyfarfodydd wyneb yn wyneb Dioddefwr-Troseddwr (Cyfiawnder Adferol) ar gyfer troseddau lle mae dioddefwr clir a'r dioddefwr yn awyddus i gymryd rhan.<br>6) Mae NOMS wedi comisiynu ymchwil am droseddwyr sy'n dwyn a hefyd yn awyddus i gefnogi gwasanaethau ac ymyriadau arloesol sy'n sicr mewn theori ar gyfer troseddwyr sy'n dwyn ac yn lladrata yn y grŵp hwn, cyn belled â'u bod yn gymesur â risg ac angen a bod cynllun gwerthuso yn cael ei gynnwys gyda hwy.<br>**Peidier â buddsoddi mewn:**<br>7) Ymyriadau neu wasanaethau lluosog (fesul troseddwr) sy'n ateb yr un anghenion. |
| **Tebygolrwydd uchel iawn o unrhyw aileuogfarn (troseddwyr mynych): OGRS 90-100%** | Mae troseddwyr yn y band risg hwn yn debygol iawn o aildroseddu ond yn aml troseddau o ddwyn ydynt yn hytrach na rhai treisgar. Mae dynion yn y band risg hwn yn dueddol o gael eu heuogfarnu'n arbennig am ddwyn a dwyn o siopau. Mae merched yn y band risg hwn yn dueddol o gael eu heuogfarnu am ddwyn o siopau. Mae gan y rhai sy'n bwrw dedfrydau o lai na 12 mis grynodiadau mawr o droseddwyr yn y band risg hwn.<br>**Buddsodder mewn:**<br>1) Y gweithgaredd rheoli achos mwyaf dwys, gan gynnwys amser goruchwyliaeth un i un i gydnabod cyrhaeddiad, ysgogi, cynllunio ar gyfer newid positif a chyfuno dysgu o ymyriadau.<br>2) Rheoli risg cymesur i ateb risg o unrhyw aileuogfarn a hefyd, lle yr asesir risg o niwed difrifol ar ryddhau yn 'uchel' neu'n 'uchel iawn'.<br>3) Triniaeth yn ateb dibyniaeth ar gyffuriau, yn arbennig ar gyfer troseddwyr sy'n dwyn lle sbardunir eu troseddu gan gamddefnyddio cyffuriau (yn aml y rheiny sydd â chollfarn am ddwyn neu ddwyn o siopau).<br>4) Partneriaethau IOM. **Peidier â buddsoddi mewn:**<br>5) Rhaglenni sgiliau gwybyddiaeth. Mae tystiolaeth yn awgrymu nad ydynt yn debygol o fod yn effeithiol ar gyfer pobl ar y lefel hon o risg. |

| | |
|---|---|
| 4(b) | **SIcrhau bod y defnydd o gapasiti carcharol yn cyflenwi'r cyfluniad mwyaf cost effeithiol o lefydd ac yn cwrdd â gofynion strategol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac anghenion partneriaid sy'n cydgomisynu a chyflenwi wrth leihau cost.** |

Bydd NOMS yn comisiynu o gwmpas 88,400 o lefydd yn 2014-15 er mwyn sicrhau bod capasiti digonol i ymateb i alw. Mae NOMS wedi ymrwymo i foderneiddio ei ystâd trwy gau llefydd nad ydynt yn addas i ddarparu gwasanaethau carchar modern mwyach a dod â chapasiti newydd i gymryd ei le.

Rydym yn bwriadu ail-gyflunio'r ystâd er mwyn mwyhau'r adnoddau sy'n bodoli a chefnogi cyflenwi rhaglenni diwygio allweddol fel y gost uned carcharol a rhaglenni adsefydlu.

Rydym eisiau sicrhau ein bod yn defnyddio'n capasiti yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl. Bydd NOMS felly yn gosod blaenoriaethau gweithredol yn strategol ar lefel genedlaethol (a lle bo'n briodol ar lefel ranbarthol) i sicrhau bod gwell cyfatebiaeth rhwng anghenion a dargedwyd y carcharorion a'r ddarpariaeth sydd ar gael, gan sicrhau gwerth am arian o hyd.

Byddwn yn adolygu manylion y boblogaeth a ddefnyddir wrth drafod Cytundebau Lefel Gwasanaeth a chontractau yng ngoleuni ail-gyflunio'r ystâd i adnabod unrhyw gyfleoedd strategol i ateb y bwriad hwn. Byddwn yn gweithio â phartneriaid cydgomisiynu a chyflenwi i ddatblygu cyfleoedd i gyflunio'r ystâd yn wahanol, a gweithio drwy'r sialensau ar gyfer lleoliadau a rhanddeiliaid arbennig a grwpiau o droseddwyr.

| | |
|---|---|
| **5.** | **Sicrhau bod cyflenwi gwasanaethau yn ymatebol i anghenion a nodweddion unigol er mwyn mwyhau canlyniadau.** |

Gall troseddwyr gyflwyno ystod eang o brofiadau ac anghenion sy'n effeithio ar eu gallu i ymgysylltu ag ymyriadau a gwasanaethau er mwyn cyflawni eu dedfryd a byw bywydau yn ddi-drosedd. Mae angen i'r bwriad hwn sicrhau bod cyflenwi gwasanaethau yn ymatebol i anghenion a nodweddion unigol er mwyn mwyhau canlyniadau.

| | |
|---|---|
| 5(a) | **Bydd anghenion a nodweddion unigol yn cael eu hadnabod, eu hasesu a'u monitro yn effeithiol. Rhennir yr wybodaeth hon yn briodol, yn rhagweithiol ac yn synhwyrol ar draws y corff a chyda partneriaid cyflenwi.** |

Dylai systemau fodoli i sicrhau yr asesir anghenion unigol perthnasol (gweler y rhestr yn 5b) yn effeithiol, ac y rhennir gwybodaeth yn briodol, ar yr adeg fwyaf o gymorth yn nedfryd y troseddwr. Gall anghenion troseddwyr newid dros amser a gall eu hamgylchiadau arbennig, gan gynnwys hyd y carcharu eu gwneud yn waeth. Gan hynny, mae monitro a gweithredu yn arbennig o bwysig.

| | | |
|---|---|---|
| 5(b) | **Defnyddir gwybodaeth ynglŷn ag anghenion a nodweddion unigol i addasu a chreu dilyniant o wasanaethau i gwrdd ag anghenion unigol a mwyhau eu lles, a chefnogir troseddwyr ac fe'u hanogir i gael mynediad at y gwasanaethau priodol.** | |

Mae NOMS yn disgwyl i ddarparwyr gymryd anghenion a nodweddion penodol unigolion i ystyriaeth a bod darparwyr yn gallu dangos tystiolaeth a mynegi sut byddant yn sicrhau y cefnogir ac yr anogir troseddwyr i gael mynediad at wasanaethau priodol, gyda chyfeiriad at:

- Anabledd ac Anhawster Dysgu
- Iechyd corfforol ac anabledd

- Iechyd Meddwl
- Aeddfedrwydd, gan gynnwys gallu i gymryd cyfrifoldeb am a deall canlyniadau eu gweithrediadau eu hunain, ac agweddau tuag at gymryd risgiau
- Amgylchiadau teuluol (e.e. tor-berthynas, cyfrifoldebau gofalu, anawsterau ariannol ac ati)
- Nodweddion gwarchodedig gan gynnwys:
  - Rhyw
  - Cyfeiriadedd rhyw
  - Hil
  - Oed
  - Credo
  - Ailbennu rhywedd
  - Beichiogrwydd a mamolaeth

Mae enghreifftiau o sut dylai gwasanaethau troseddwyr gael eu teilwra yn cynnwys addasu deunyddiau ac ymyriadau, newid y dull o gyfathrebu ac ychwanegu adnoddau fel cefnogaeth un i un wedi ei thargedu.

Yn ogystal ag ystyried nodweddion penodol unigolyn, bydd angen i ddarparwyr ddangos eu bod yn gallu gwneud unrhyw newidiadau rhesymol sy'n ofynnol gan y gyfraith. Lle mae newidiadau rhesymol yn gofyn am weithio mewn partneriaeth, dylid edrych ar ddulliau o gydgomisiynu.

| 6. | Cyflenwi gwasanaethau blaenoriaethol cenedlaethol neu arbenigol |
|---|---|

Mae rhai gwasanaethau, oherwydd eu natur neu'r grŵp troseddwyr y targedwyd hwy atynt, yn gofyn am lefel uwch o arweiniad a manyldeb.

| 6(a) | **Parhau i adnabod, asesu a rheoli troseddwyr eithafol drwy ymgysylltu â strwythurau lleol sydd eisoes yn bodoli a sicrhau bod hyfforddiant ac ymwybyddiaeth wedi eu gwreiddio i mewn i grwpiau allweddol o staff. Sicrhau y cyfeirir at ymyriadau, asesu strwythuredig ac ymyriadau strwythuredig a rhaglenni'n seiliedig ar gredo, yn unol â risg ac angen y troseddwr lle bo hynny'n briodol.** |
|---|---|

Mae Strategaeth Wrthderfysgaeth y Deyrnas Unedig (CONTEST[29]) yn cyflwyno disgwyliad y bydd NOMS yn cyfrannu at leihau'r risg i'r DU oddi wrth derfysgaeth.

Cyflwynodd *Better Outcomes: working with Extremist Offenders* (a gyhoeddwyd ar gyfer darparwyr carchar a gwasanaeth prawf ym Mawrth 2013) y dylid cyflawni hyn drwy offer presennol (megis OASyS), gwybodaeth berthnasol a chredadwy a dynnwyd drwy brosesau amlasiantaethol, a gellid defnyddio offer asesu risg arbenigol (e.e. ERS ac ERG) i oleuo ymyriadau a strategaethau rheoli priodol. Mae

[29] Cyhoeddwyd CONTEST gan y Swyddfa Gartref ym mis Gorffennaf 2011. Gweler: www.homeoffice.gov.uk/publications/counter-terrorism/counter-terrorism-strategy/strategy-contest?view=Binary

enghreifftiau posibl yn cynnwys ymyriadau megis Channel, asesiadau strwythuredig fel Canllawiau Risg Eithafiaeth (ERG22+), ymyriadau strwythuredig fel Ymyrraeth Hunaniaeth Iechyd (HII) ac, oddi mewn i garchardai, rhaglenni'n seiliedig ar gredo fel Tarbiyah ac Ibaana.

Dylai cynlluniau rheoli risg effeithiol fod mewn grym, a dylent dargedu anghenion penodol unigolion gan ddefnyddio gwasanaethau ac ymyriadau a ddyluniwyd i ateb ffactorau a nodwyd fel rhai sy'n cyfrannu at eu hymddygiad troseddol. Lle bo'n briodol, gall fod angen ymyriadau penodol wedi ei dylunio i ymdrin ag adnabyddiaeth neu ymgysylltiad â grwpiau o eithafwyr, achosion neu ideoleg.

| | |
|---|---|
| 6(b) | **Cyflawni cyfarfodydd rhwng dioddefwyr-troseddwyr (Cyfiawnder Adferol) lle mae'r capasiti'n bodoli a datblygu partneriaethau ac awyrgylch gefnogol i alluogi hyn i ddigwydd lle nad yw'n digwydd ar hyn o bryd.** |

Er bod y dirwedd comisiynu a chyflenwi'n newid, bydd carchardai'n parhau i fod â rôl mewn datblygu cyfarfodydd rhwng dioddefwyr-troseddwyr (RJ). Gan fod Cyfiawnder Adferol bellach mewn cyfnod hollbwysig o ddatblygiad, bydd y bwriad comisiynu hwn yn cefnogi buddsoddiadau NOMS mewn Cyfiawnder Adferol. (Rhaglen a Ariannir gan Grant Cyfiawnder Adferol a gwerthusiad Cyn-dedfryd.) Bydd hyn yn sicrhau bod etifeddiaeth o gapasiti cynaliadwy, tra bydd yn gadael darparwyr carchardai â'r awyrgylch gefnogol sydd ei hangen I Gyfiawnder Adferol fod yn llwyddiannus, p'run ai a yw'n cael ei gyflenwi'n fewnol neu gan ddarparwyr eraill.

Mae'r term 'Cyfiawnder Adferol' yn cynnwys ystod o ddulliau, ond mae tystiolaeth yn awgrymu bod modelau sy'n cynnig cyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng dioddefwyr-troseddwyr, wedi eu targedu at y rhai sydd wedi cyflawni troseddau treisgar neu o ddwyn, lle mae dioddefwr clir, a lle mae'r troseddwr â thebygolrwydd canolig neu uchel o aildroseddu (OGRS3 25-74) yn fwyaf tebygol o gyflawni'r canlyniadau a ddymunir o fwy o fodlonrwydd i'r dioddefwr a lleihad mewn aildroseddu.

Dylai gweithgaredd felly dargedu'r grwpiau hynny o droseddwyr a ffocysu ar fodelau sydd â chyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng dioddefwr-troseddwr fel nod. Mae tystiolaeth gyfyngedig ar effeithiau Cyfiawnder Adferol mewn achosion o droseddu rhyw neu droseddu yn erbyn partner agos (trais yn y cartref). Gan gymryd y dystiolaeth gyfyngedig am y mathau hyn o droseddau, a'r risgiau a'r heriau ychwanegol posibl, awgrymir y dylai Cyfiawnder Adferol ddigwydd o dan amgylchiadau eithriadol yn unig yn yr achosion hyn, a dim ond lle mae hyder y bydd y broses o les clir ac na fydd yn achosi niwed i unrhyw unigolyn sy'n bresennol. Mae'n bwysig lle mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn dewis peidio â chyfarfod wyneb yn wyneb, neu lle mae'r asesiad risg yn nodi na fyddai hyn yn ddiogel, bod dull gwahanol o gyfathrebu ar gael.

Bydd ymarfer effeithiol ar gyfer creu awyrgylch gefnogol ar gyfer trefnu cyfarfodydd rhwng dioddefwr-troseddwr yn cynnwys seilwaith i gefnogi cyflenwi, trefn ar gyfer atgyfeirio a briffio/hyfforddiant ar gyfer ymwybyddiaeth staff a chytundebau canlyniadau wedi eu cysylltu â chynlluniau dedfrydu a'u hadolygu'n rheolaidd fel rhan o gynllunio'r ddedfryd a'r broses gyflenwi.

Gellir canfod mwy o wybodaeth yn *NOMS Better Outcomes through Victim-Offender Conferencing*[30] a *Wait 'til Eight RJ Implementation Guidance*[31].

| 6(c) | **Sicrhau defnydd effeithiol o leoedd mewn carchar drwy ddatblygu a gweithredu strategaethau mechnïaeth lleol a defnyddio HDC ar gyfer troseddwyr priodol, gan gynnwys gwneud defnydd llawn o'r Gwasanaeth Llety a Chefnogaeth ar Fechnïaeth (BASS).** |
|---|---|

Y bwriad yw anelu at ostwng y galw am leoedd yn y carchar drwy sicrhau bod diffynyddion a throseddwyr yn aros yn y gymuned pan fo hyn yn briodol gyda pharch dyledus i amddiffyn y cyhoedd, ac yn achos HDC, gwella'r gallu i ostwng canlyniadau aildroseddu. Wrth ymateb i'r bwriad hwn, dylai darparwyr amlinellu eu dull o sicrhau bod diffynyddion a throseddwyr cymwys yn cael eu hystyried a'u cyfeirio, pan fo hynny'n briodol, at amrywiaeth o wasanaethau sydd â'u sylfaen yn y gymuned, gan gynnwys gwneud defnydd llawn o BASS, a gwasanaethau eraill, er enghraifft monitro electronig. Dylid gwneud cyfeiriad at weithredu manyleb y Gwasanaethau Mechnïaeth, gofynion HDC a Chymorth Cyfreithiol, Deddf Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012.

| 6(d) | **Cynyddu'r cyfanswm o waith masnachol a gwaith o fudd economaidd mewn carchardai a wneir gan garcharorion.** |
|---|---|

Mae NOMS yn bwriadu i garchardai fod yn llefydd ar gyfer gwaith a gweithgaredd. Fel mae'r meincnod gweithredu newydd yn cael ei gyflwyno ar draws yr ystâd, bydd 'diwrnod craidd' newydd yn cefnogi'r ffocws o ddarparu gwaith ystyrlon i garcharorion sy'n efelychu wythnos o waith arferol. Mae hyn nid yn unig yn darparu ffordd gost effeithiol o gyflenwi cyfundrefnau carcharol ond hefyd brofiad gwaith a sgiliau go iawn a ddylai yn eu tro helpu i leihau'r gyfradd o aildroseddu.

Er mwyn cadw a denu gwaith masnachol newydd sylweddol i mewn i garchardai, mae'n hanfodol bod NOMS a charchardai ar lefel unigol yn gweithio'n rhanbarthol i ymgysylltu'n rhagweithiol â busnes i sicrhau gwaith ar sail fasnachol o dan y brand ONE3ONE Solutions[32].

Bydd ONE3ONE Solutions, sy'n cynnwys carchardai, yn cyflenwi'r uchelgais hon drwy gyfuniad o gontractau masnachol aml-leoliad graddfa-uchel, a chontractau mwy lleol ar raddfa lai wedi eu rheoli'n uniongyrchol gan garchardai.

Ar lefel genedlaethol, i ddechrau bydd ONE3ONE Solutions yn cynnig cefnogaeth wedi ei thargedu i nifer o garchardai a nodwyd. Mae uchelgeisiau twf wedi'u seilio ar ddatblygiad busnes wedi ei dargedu mewn marchnadoedd fel golchi dillad, argraffu a thecstilau lle mae gallu i gyflenwi a photensial o farchnad. Anogir carchardai/rhanbarthau i ddatblygu strategaethau twf lleol i ystyried diwydiannau/busnesau allweddol i'w targedu.

Darperir cefnogaeth hefyd  i bob carchar i helpu iddynt ddatblygu eu mentrau busnes lleol a rhanbarthol eu hunain drwy ystod o adnoddau ac offer busnes.[33]

[30] http://www.justice.gov.uk/downloads/about/noms/better-outcomes-through-victim-offender-conferencing.pdf
[31] http://www.justice.gov.uk/downloads/about/noms/wait-til-eight-guidance.pdf
[32] www.one3one.justice.gov.uk/

| 6(e) | **Cefnogi cyflenwi effeithlonrwydd ar draws y system cyfiawnder troseddol drwy gynyddu'r defnydd o gysylltiadau fideo yn y carchar.** |
|---|---|

Mae'r Cynllun Strategol a Gweithredol Gweinidogol, Gorffennaf 2013 yn cefnogi'n gryf y defnydd o dechnoleg cysylltiadau fideo yn y carchar pan mae'n briodol i wneud hynny ac mae'n annog carchardai a llysoedd i edrych ar gynyddu ei ddefnydd lle bynnag mae hyn yn bosibl.

Trwy ddefnydd effeithiol ac effeithlon o offer cysylltiadau fideo yn y carchar, gall carchardai ddarparu gwell gwasanaeth i ddefnyddwyr y SCT (CJS), helpu gyda'r busnes sy'n mynd trwy'r llysoedd, ar yr un pryd â chyflenwi arbedion a lleihau risg drwy lai o symud carcharorion a chyfrannu at les carcharorion gyda llai o amser yn cael ei dreulio mewn faniau carchar a chelloedd y llys mewn gwrandawiadau byr. Gall y defnydd o dechnoleg fideo hefyd hyrwyddo defnyddiau "eraill" o gynadledda fideo, a nodir yn y Cynllun Strategol a'r Cynllun Gweithredu Gweinidogol, Gorffennaf 2013, er enghraifft ymweliadau gan yr Amddiffyniad o Siamberi, ymweliadau rhwng carchardai, rheoli troseddwyr a chyflenwi gwasanaethau 'drwy'r porth' yn y dyfodol.

Yn hanesyddol, pan osodwyd offer fideo cysylltu â'r carchar yn llysoedd yr ynadon, Llysoedd y Goron a charchardai yng Nghymru a Lloegr, fe'i gosodwyd gyda'r strwythur arbennig i ddiwallu anghenion y gwasanaeth carchar a HMCTS, wedi ei reoli gan gytundebau partneriaethau lleol. Mae angen bellach i garchardai fod yn fwy hyblyg a mentrus yn eu dulliau o ddefnyddio fideo, fel bod y lles mwyaf posibl yn deillio o'r system gysylltu. Dylai pob cytundeb partneriaeth lleol bellach ystyried sut y gallai pobl eraill elwa o'r cysylltiad fideo a chyfleusterau cyfarfodydd fideo eraill.

Lle mae cyfleusterau cysylltiad fideo yn bodoli mewn carchar, mae carchardai felly yn cael eu hannog i sefydlu cyfarfodydd lleol rhwng y llysoedd, y gwasanaeth prawf, a'r barnwyr gyda golwg ar gytuno ar ffordd o gyd-weithio.

Dylai carchardai gytuno eu trefniadau â'u llysoedd ynadon, llysoedd ieuenctid a llysoedd oedolion, a Llysoedd y Goron, fel bod ganddynt sesiynau wedi eu hamseru'n rheolaidd yn unol â'u hanghenion busnes. Yn ddelfrydol ni ddylai'r rhain gael eu cyfyngu i ddyddiau unigol neu sesiynau boreol yn unig, a thrwy hynny byddai'r cyfleuster yn cael ei ehangu. Manylir ar y trefniadau hyn yn y cytundebau lleol. Anogir yr holl garchardai i ystyried y defnydd gorau o gysylltiadau fideo gan gynnwys ail-ddyrannu adnoddau mewnol i gynnwys gwrandawiadau o'r fath, gan ddefnyddio'r rhai a ryddheir o gwtogi ar symudiad carcharorion i gefnogi cyfleusterau fideo a lleoli ystafelloedd fideo cyfredol.

Gallai carchardai ddymuno sefydlu un pwynt cyswllt (SPOC) i ymdrin â materion fel bwcio blaenoriaethau sy'n gwrthdaro ddwywaith.

[33] I helpu i fonitro dilyniant yn erbyn y flaenoriaeth allweddol hon, mae'r gwaith a wneir mewn carchardai bellach yn cael ei fesur fel rhan o'r System Safonau Carchardai trwy fesurau yn y meysydd Lleihau Aildroseddu a Diogelwch a Gwedduster, gyda phwysau wedi ei gyfuno o 5%, wedi ei rannu'n gyfartal rhwng y ddau faes.

# B. Cydraddoldeb

Mae'r atodiad hwn yn cyflwyno trafodaeth fer o effeithiau cydraddoldeb a ddisgwylir o'n bwriadau comisiynu o 2014. Am fanylion llawn o'r materion cydraddoldeb a wynebir gan NOMS a'n dull o fynd i'r afael â hwy, gweler Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb diweddaraf NOMS[34], amcanion cydraddoldeb NOMS[35]a'r cyfarwyddiadau gorfodol perthnasol [36].

Mae gan yr holl gyrff cyhoeddus ddyletswydd gyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010[37] i ymchwilio sut, wrth arfer eu swyddogaethau, maent yn debyg o gael effaith ar bobl sydd â 'nodweddion gwarchodedig', sef:

- Hil
- Rhyw
- Anabledd
- Cyfeiriadedd rhyw
- Crefydd a chred
- Oed
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth

Mae NOMS wedi dat blygu ei brosesu gomisiynu yn unol â'r dyletswydd hwn.

Mae'r sialensau a wynebir wrth sicrhau cydraddoldeb mewn gwasanaethau troseddwyr yn glir o'r data a gyhoeddir yn ein Hadroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb. Mae poblogaeth y troseddwyr yn cynnwys niferoedd anghymesur o bobl o nifer o grwpiau lleiafrifol a/neu grwpiau sydd dan anfantais yn hanesyddol, ac mae gwahaniaethau parhaus rhwng grwpiau yn nhermau nifer o'n hallbynnau a'n prosesau allweddol. Mewn rhai achosion mae hyn o ganlyniad i wasanaeth sy'n ymatebol i anghenion troseddwyr, ond mewn rhai eraill mae'r data yn awgrymu y gall fod yna anhegwch yn y ffordd rydym yn trin grwpiau gwahanol. Rydym yn defnyddio'r broses gomisiynu fel dull o fynd i'r afael â'r sialensau hyn.

Mae agwedd NOMS ar sail tystiolaeth at gomisiynu wedi ei chynllunio i gael y canlyniadau gorau yn nhermau diogelu'r cyhoedd a gostwng aildroseddu. Bwriedir sicrhau bod penderfyniadau comisiynu yn wrthrychol, a dylid felly sicrhau mwy o gysondeb a system decach i bawb.

---

[34] Bydd y rhain yn parhau i fod ar gael ar: http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/noms/2012/noms-equalities-annual-report-11-12.pdf

[35] Gweler tud23-24 o Gynllun Busnes NOMS 2013-14: www.justice.gov.uk/downloads/publications/corporate-reports/noms/2012/noms-business-plan-2012-2013.pdf

[36] Gweler Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carcharau 32/2011 Ensuring Equality: www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2011/psi_2011_32_ensuring_equality.doc

[37] Cyflwynir dyletswydd y sector cyhoeddus yn adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010.

Ein disgwyliad yw y bydd yr egwyddor ymatebolrwydd yn golygu fod darparwyr yn gwneud gwaith pellach i ganfod a mynd i'r afael ag anghenion penodol y gwahanol grwpiau oddi fewn i'r boblogaeth troseddwyr, ac yn gweithio gyda ni i wella ein dealltwriaeth o sut y gall gwasanaethau fod yn ymatebol i'r anghenion hynny. Mae hyn yn ffitio gyda'n hamcan cydraddoldeb i ehangu a gwella ein gwaith o gasglu data. Rydym hefyd wedi defnyddio rhai bwriadau comisiynu penodol i sbarduno gweithgaredd i hyrwyddo nodau cydraddoldeb pellach.

Yn y gwaith ar segmentu, rydym wedi bod yn ofalus o'n cyfrifoldebau wrth ystyried goblygiadau cydraddoldeb. Yn arbennig rydym wedi dewis model segmentu sydd wedi ei sylfaenu ar asesiad actiwaraidd, yn hytrach na barn glinigol, er mwyn sicrhau bod sail wrthrychol ac nad yw'n ddibynnol ar ffactorau goddrychol. Ni ystyrir fod y cynigion yn anfantais i grwpiau ar sail nodweddion gwarchodedig – yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, ond os ydynt rydym yn hyderus fod cyfiawnhad i hyn am ei fod yn ddull cymesur o gyrraedd pen draw cyfreithlon diogelu'r cyhoedd a gostwng aildroseddu.

Rydym yn ymwybodol er mai'r amcan yw arwain at welliannau mewn perfformiad ar gydraddoldeb, bod arnom angen monitro'r effaith i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau niweidiol na chafodd eu rhagweld. Byddwn yn parhau i wella'r dull o gasglu data ar droseddwyr sy'n monitro cydraddoldeb ac yn ehangu'r amrediad o allbynnau, prosesau a chanlyniadau a fesurir, a'r ystod o nodweddion gwarchodedig a ddefnyddir i'w dadansoddi. Bydd y data hwn yn cael ei gyhoeddi mewn fersiynau o'n Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn y dyfodol, a bydd yn cael ei ddefnyddio i fod yn sail i unrhyw weithgaredd comisiynu pellach.

# C. Gofynion Cyflawni ar gyfer 2014-15

## Gofynion Cyflawni Gwasanaeth Cymunedol 2014-15

Gwelir gofynion cyflawni ar gyfer gwasanaethau cymunedol ar gyfer 2014-15 isod. Mae'r gofynion cyflawni yn cael eu grwpio dan benawdau o Gyfeirlyfr Gwasanaethau NOMS.

| ID | Canlyniad(au) a Ddymunir[38] | Mesur | Gyrrwr (Amcan) |
|---|---|---|---|
| | | **RHEOLI TROSEDDWYR** | |
| OM 004 | Cyflawni'r Ddedfryd yn Effeithiol / Diogelu'r Cyhoedd | x% o geisiadau galw'n ôl trwyddedau i gyrraedd Adran Ôl Ryddhau NOMS o fewn 24 awr i benderfyniad y Rheolwr Troseddwyr | Ufudd-dod y Troseddwr(Gorfodaeth) |
| OM 005 | Cyflawni'r Ddedfryd yn Effeithiol | x% o'r achosion ble roedd cychwyn y gweithrediadau torcyfraith wedi digwydd 10 diwrnod gwaith o'r methu â chydymffurfio annerbyniol perthnasol | Ufudd-dod y Troseddwr(Gorfodaeth) |
| OM 020 | Cyflawni'r Ddedfryd yn Effeithiol | x% o orchmynion y Llys a Rhyddhau o'r Ddalfa ar Drwydded yn cael eu cwblhau'n llwyddiannus | Ufudd-dod y Troseddwr; Dylanwadu ar Ddedfrydau a Phatrymau Dedfrydu |
| OM 026 | Diogelu'r Cyhoedd | x% o asesiadau OASys yn cael eu dadansoddi naill ai yn "Foddhaol"" neu'n "Dda" ar Sicrwydd Ansawdd OASys | Ansawdd a Phrydlondeb Asesu/Adolygu Troseddwyr; Ansawdd ac Effeithiolrwydd Cynlluniau Dedfrydu |
| OM 027 | Diogelu'r Cyhoedd | x% o adroddiadau asesu Troseddwyr Dedfryd Benagored (IPP ac am Oes) wedi eu cwblhau erbyn y dyddiad targed a osodwyd | Ansawdd a Phrydlondeb Asesu/Adolygu Troseddwyr |
| OM 029 | Cyflawni'r Ddedfryd yn Effeithiol | x% o droseddwyr a arolygwyd sydd wedi ymgysylltu'n bositif â'r broses rheoli troseddwyr | Ymgysylltu â Throseddwyr; Mynd i'r afael â ffactorau ailsefydlu |
| OM 039 | Cyflawni'r Ddedfryd yn Effeithiol | O leiaf x% o adolygiadau terfynol (terfyniadau) OASys wedi eu cwblhau neu eu diweddaru oddi fewn i'r amserlen briodol ar gyfer yr holl droseddwyr Rheng 2 (ble mae'n briodol), Rheng 3, Rheng 4, a Throseddwyr Toreithiog a Blaenoriaeth | Ansawdd a Phrydlondeb Asesu/Adolygu Troseddwyr |
| OM 040 | Cyflawni'r Ddedfryd yn Effeithiol | x% o Adroddiadau Cyn Dedfrydu (PSR) yn cael eu cwblhau oddi fewn i'r amserlen a osodwyd gan y llys (gan gynnwys Remand yn y Ddalfa) | Dylanwadu ar Ddedfrydau a Phatrymau Dedfrydu; Ansawdd a Phrydlondeb Adroddiadau'r Llys |
| OM 041[39] | Diogelu'r Cyhoedd | I gyrraedd cyfradd lefel 3 neu well ar gyfer creu cofnodion priodol ar ViSOR (OM046) a mynychu cyfarfodydd SMB (OM041A) a MAPPA ar gyfer achosion Lefel 2 a 3 (OM041B) | Effeithiolrwydd MAPPA |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **YMYRIADAU A CHYFYNGIADAU** | |
| OM 017 | Gostwng Troseddu / Diwygio ac Ailsefydlu Troseddwyr | Canran o droseddwyr mewn llety sefydlog ac addas ar ddiwedd eu gorchymyn neu drwydded i fod yn o leiaf x% | Mynd i'r afael â ffactorau ailsefydlu |

[38] Mae'r rhain yn berthnasol i'r pum pwrpas o ddedfrydu fel y gwelir yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 2003 http://sentencingcouncil.judiciary.gov.uk/sentencing/what-sentences-for.htm

[39] Yn cynnwys OM041A, OM041B a OM046.

| | | | |
|---|---|---|---|
| INT 001 | Gostwng Troseddu / Diwygio ac Ailsefydlu Troseddwyr | Y nifer sydd wedi cwblhau rhaglenni troseddwyr rhyw i fod o leiaf yn x | Mynd i'r afael â ffactorau ailsefydlu |
| INT 002 | Gostwng Troseddu / Diwygio ac Ailsefydlu Troseddwyr | Y nifer sydd wedi cwblhau rhaglen trais yn y cartref i fod yn o leiaf x | Mynd i'r afael â ffactorau ailsefydlu |
| INT 003 | Gostwng Troseddu / Diwygio ac Ailsefydlu Troseddwyr | Y nifer sydd wedi cwblhau rhaglen achrededig ymddygiad troseddol (ac eithrio rhaglenni troseddwyr rhyw a rhaglenni trais yn y cartref) i fod yn o leiaf x | Mynd i'r afael â ffactorau ailsefydlu |
| INT 005 | Cosbi Troseddwyr / Gwneud iawn gan Droseddwyr i'r Bobl a effeithiwyd gan eu troseddau | Y nifer sydd wedi cwblhau rhaglen Ad-dalu i'r gymuned i fod yn o leiaf x | Dedfryd y llys wedi'l chyflenwi; Talu'n ôl I gymunedau a dioddefwyr |
| INT 008 | Gostwng Troseddu / Diwygio ac Ailsefydlu Troseddwyr | Y nifer o droseddwyr ar orchymyn neu drwydded sy'n canfod gwaith ac yn parhau mewn cyflogaeth i fod yn o leiaf x | Mynd i'r afael â ffactorau ailsefydlu |
| INT 009 | Gostwng Troseddu / Diwygio ac Ailsefydlu Troseddwyr | Canran y troseddwyr mewn cyflogaeth ar ddiwedd eu gorchymyn neu drwydded i fod yn o leiaf x% | Mynd i'r afael â ffactorau ailsefydlu |
| **GWAITH LLYS MECHNÏAETH A DIODDEFWYR** | | | |
| OM 032 | Ymgysylltu â'r dioddefwyr | 90% o ddioddefwyr sy'n ymateb i Arolwg Dioddefwyr NOMS yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r gwasanaeth a dderbyniwyd | Mynd i'r afael â risg, anghenion a hawliau dioddefwyr |

# Gofynion Cyflenwi Gwasanaethau yn y Ddalfa 2014-15

Gwelir yr anghenion cyflawni ar gyfer gwasanaethau yn y ddalfa ar gyfer 2014-15 isod. Mae'r gofynion cyflawni yn cael eu grwpio dan benawdau o Gyfeirlyfr Gwasanaethau NOMS.

| ID | Canlyniad(au) a ddymunir [40] | Mesur | Gyrrwr (Amcan) |
|---|---|---|---|
| **CADW YN Y DDALFA YN DDIOGEL AC YN WEDDUS** | | | |
| CU001 | Rheoli Adnoddau ac Effeithiolrwydd Gweithredol | Sicrhau fod x% o droseddwyr yn barod ar gyfer eu rhyddhau i ymddangos yn y llys i gydymffurfio â'r contract hebrwng | Rheoli Adnoddau ac Effeithiolrwydd Gweithredol |
| CU003 | Diogelu'r Cyhoedd | Sicrhau fod graddfa dianc fesul 100,000 o ddyddiau troseddwyr mewn ystad agored yn llai na x% | Cyflawni Dedfryd y Llys |
| CU006 | Diogelu'r Cyhoedd/ Cyflawni'r Ddedfryd yn Effeithiol | Dim dianc gan droseddwyr Categori A | Diogelu'r Cyhoedd |
| CU007 | Diogelu'r Cyhoedd / Cyflawni'r Ddedfryd yn Effeithiol | Cyfradd dianc o garchar a hebrwng carcharorion i fod yn ddim mwy na x% o boblogaeth carchardai ar gyfartaledd | Diogelu'r Cyhoedd |
| CU016 | Gostwng Troseddu / Cyflawni'r Ddedfryd yn Effeithiol | Cyfradd camddefnyddio cyffuriau yng ngharchar yn llai na x% o'r hyn a adlewyrchir gan y rhai sy'n profi'n bositif mewn profion cyffuriau gorfodol | Rheoli ac Ymyriadau Troseddwyr |
| CU031 | Rheoli Adnoddau ac Effeithiolrwydd Gweithredol | I sicrhau fod x% o raddau unedig wedi cael eu hadnewyddu'n llawn yn nhechnegau sylfaenol Rheoli ac Atal (C& R) yn ystod y 12 mis diwethaf | Trefn a Rheoli |
| CU056a | Diogelu'r Cyhoedd | Cyrraedd graddfa cydymffurfio x neu'n well yn yr archwiliad diogelwch blynyddol | Diogelwch |
| CU060 | Diogelu'r Cyhoedd | Cael x% o'r staff wedi eu hyfforddi a gydag achrediad dilys mewn technegau Rheoli ac Atal Uwch (Tornado) | Trefn a Rheoli |
| CU079 | Cyflawni'r Ddedfryd yn Effeithiol | Cyrraedd graddfa o x o leiaf mewn mesur gwedduster Rheoli Ansawdd Bywyd mewn Carchar (MQPL) | Amodau gweddus |
| **RHEOLI TROSEDDWYR** | | | |
| CU002 | Diogelu'r Cyhoedd | Sicrhau fod x% o garcharorion yn cydymffurfio ag amodau eu rhyddhau ar drwydded dros dro | Ansawdd ac Effeithiolrwydd Rheoli Risg |
| CU043 | Diogelu'r Cyhoedd | Sicrhau fod x% o goflenni carcharorion dedfrydau penagored wedi eu cwblhau yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Parôl o fewn 8 wythnos o ddyddiad cychwyn yr adolygiad | Cyflawni Dedfryd y Llys |
| CU057a | Cyflawni'r Ddedfryd yn Effeithiol | Cyrraedd graddfa cydymffurfio o x neu well yn yr Archwiliad Dalfa Ddiogelach | Iechyd Meddwl (Hunan Niweidio) |
| CU074 | Cyflawni'r Ddedfryd yn Effeithiol | Cyrraedd sgôr o lai na x wrth gymharu'r gwahaniaethau mewn safbwyntiau rhwng ymatebion Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a rhai sydd heb fod yn Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i'r arolwg Rheoli Ansawdd Bywyd mewn Carchar | Amrywiaeth a Chydraddoldeb (Troseddwyr) |
| CU075 | Cyflawni'r Ddedfryd yn Effeithiol | Cyrraedd graddfa o x ar gyfer y Prawf Carchar Iach ar Barch HMIP | Ansawdd Triniaeth / Profiad Cyffredinol y Troseddwr |

[40] Mae'r rhain yn berthnasol i'r pum pwrpas o ddedfrydu fel y gwelir yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 2003 http://sentencingcouncil.judiciary.gov.uk/sentencing/what-sentences-for.htm

| | | | |
|---|---|---|---|
| CU076 | Cyflawni'r Ddedfryd yn Effeithiol | Cyrraedd graddfa o x o leiaf mewn mesur diogelwch Rheoli Ansawdd Bywyd mewn Carchar (MQPL) | Cadw Trefn a Rheoli, a Gostwng Trais |
| CU077 | Cyflawni'r Ddedfryd yn Effeithiol | Cyrraedd graddfa o x ar gyfer y Prawf Carchar Iach ar ddiogelwch HMIP | Argaeledd ac Ansawdd Cyfundrefn Troseddwyr |
| CU083 | Cyflawni'r Ddedfryd yn Effeithiol | x% o asesiadau OASys yn cael eu hasesu fel "Boddhaol" neu "Da" ar Sicrwydd Ansawdd OASys | Ansawdd a Phrydlondeb Asesu / Adolygu Troseddwyr; Ansawdd ac Effeithiolrwydd Cynlluniau Dedfrydu |
| CU086a | Diogelu'r Cyhoedd | x% presenoldeb gan y safon briodol o bob carchar ar lefel 2 a 3 cyfarfod MAPPA a chyflwyno dogfen MAPPA F ysgrifenedig | Effeithiolrwydd MAPPA |
| CU089 | Diogelu'r Cyhoedd | Cyrraedd graddfa o x neu well ar gyfer rhannu gwybodaeth troseddwyr priodol ar ViSOR a phresenoldeb mewn cyfarfodydd MAPPA ar gyfer achosion Lefel 2 a 3 | Effeithiolrwydd MAPPA |
| **YMYRIADAU A CHYFYNGIADAU** | | | |
| CU013 | Gostwng Troseddu / Diwygio ac Ailsefydlu Troseddwyr | x% o droseddwyr wedi penderfynu ar lety i fynd iddo ar ôl eu rhyddhau | Mynd i'r afael â ffactorau adsefydlu |
| CU014 | Gostwng Troseddu / Diwygio ac Ailsefydlu Troseddwyr | Sicrhau fod x% o droseddwyr yn mynychu addysg neu hyfforddiant ar ôl eu rhyddhau | Mynd i'r afael â ffactorau adsefydlu |
| CU015 | Gostwng Troseddu / Diwygio ac Ailsefydlu Troseddwyr | Sicrhau fod x% o garcharorion yn mynd i gyflogaeth ar ôl eu rhyddhau | Mynd i'r afael â ffactorau adsefydlu |
| CU019 | Gostwng Troseddu / Diwygio ac Ailsefydlu Troseddwyr | Sicrhau bod x o raglenni triniaeth troseddwyr rhyw achrededig wedi eu cwblhau | Mynd i'r afael â ffactorau adsefydlu |
| CU021 | Gostwng Troseddu / Diwygio ac Ailsefydlu Troseddwyr | Sicrhau bod x o raglenni ymddygiad troseddol achrededig wedi eu cwblhau | Mynd i'r afael â ffactorau adsefydlu |
| CU095a | Gostwng Troseddu / Diwygio ac Ailsefydlu Troseddwyr | Sicrhau bod carcharorion yn gweithio'r nifer o oriau sydd eu hangen mewn diwydiant o'i gymharu ag oriau a gynlluniwyd | Mynd i'r afael â ffactorau adsefydlu |
| **CYFUNDREFNAU** | | | |
| CU067 | Gostwng Troseddu / Diwygio ac Ailsefydlu Troseddwyr | Cyrraedd graddfa o x ar gyfer y Prawf Carchar Iach ar Ailsefydlu HMIP | Mynd i'r afael â ffactorau adsefydlu |
| CU078 | Gostwng Troseddu / Diwygio ac Ailsefydlu Troseddwyr | Cyrraedd graddfa o x ar gyfer y Prawf Carchar Iach ar Weithgaredd Pwrpasol HMIP | Argaeledd ac Ansawdd Cyfundrefn Troseddwyr |
| **ANGHENION CORFFORAETHOL** | | | |
| CU036 | Cydymffurfio Corfforaethol | Sicrhau fod x% o lythyrau'r Cyhoedd yn derbyn ateb o fewn 20 diwrnod gwaith | Corfforaethol |
| CU040 | Cydymffurfio Corfforaethol | Cyrraedd y targedau defnydd ynni y cytunwyd arnynt | Corfforaethol |
| CU063 | Cydymffurfio Corfforaethol | Cyrraedd y targedau defnydd dŵr y cytunwyd arnynt | Corfforaethol |
| CU099 | Cydymffurfio Corfforaethol | Cyfeirio x% o garcharorion dinesig tramor i'r Swyddfa Gartref o fewn i 10 diwrnod o ddyddiad y ddedfryd | Corfforaethol |
| CU081 | Rheoli Adnoddau ac Effeithiolrwydd Gweithredol | Cyrraedd y sgôr yn erbyn Dadansoddiad Cost Carchardai | Gwerth am Arian |

| | | | |
|---|---|---|---|
| CR003 | Rheoli Adnoddau ac Effeithiolrwydd Gweithredol | Nid yw salwch staff yn fwy na chyfartaledd o x diwrnod y flwyddyn yn y sector gyhoeddus | Rheoli Adnoddau |

# D. Bwriadau Comisiynu NOMS ar gyfer 2013-14

| **Y Gymuned yn unig, Cymru a Lloegr** | | |
|---|---|---|
| 1) | Y Gymuned yn unig, Cymru a Lloegr | Darparu digon o leoedd i ymateb i'r galw am ddedfrydau cymunedol gan y llysoedd, drwy ddarparu dedfrydau cymunedol sy'n ennyn hyder y dedfrydwyr a'r cyhoedd. |
| 2) | Y Gymuned yn unig, Cymru a Lloegr | Defnyddio prosesau sicrhau ansawdd cadarn i sicrhau y rheolir troseddwyr yn effeithiol. |
| 3) | Y Gymuned yn unig, Cymru a Lloegr | Diogelu'r cyhoedd drwy asesu troseddwyr yn gywir a chynllunio a rheoli o ansawdd uchel yn achos perygl o niwed difrifol, gan sicrhau mynd i'r afael ag anghenion dioddefwyr mewn modd priodol. |
| 4) | Y Gymuned yn unig, Cymru a Lloegr | Sicrhau'r uchafswm o leoedd i gwrdd â'r galw am leoliadau Safleoedd Cymeradwy (gan flaenoriaethu achosion o berygl o niwed uchel ac uchel iawn). Blaenoriaethu a thargedu'r gwasanaethau adsefydlu perthnasol er mwyn delio â risgiau a gofynion preswylwyr. |
| 5) | Y Gymuned yn unig, Cymru a Lloegr | Datblygu darpariaeth Gwneud Iawn â'r Gymuned i gwrdd â gofynion newydd ar roi cychwyn diymdroi a dwys i'r cynllun, er mwyn cael gwell canlyniadau o'r gwasanaeth hwn. |
| **Y Gymuned a'r Ddalfa, Cymru a Lloegr** | | |
| 6) | Y Gymuned a'r Ddalfa, Cymru a Lloegr | Darparu ymyriadau a gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'u targedu'n dda i leihau aildroseddu, a fydd yn canolbwyntio'r buddsoddi lle bydd yn cyflawni orau. |
| *6a)* | *Y Gymuned a'r Ddalfa, Cymru a Lloegr* | *I droseddwyr sy'n fenywod, dylai ymyriadau a gwasanaethau i leihau aildroseddu gael eu targedu'n effeithiol er mwyn mynd i'r afael â ffactorau sy'n berthnasol i aildroseddu gan fenywod ac i'w galluogi i gwblhau eu dedfrydau yn llwyddiannus* |
| *6b)* | *Y Gymuned a'r Ddalfa, Cymru a Lloegr* | *I droseddwyr rhyw, dylai ymyriadau a gwasanaethau i leihau aildroseddu fod yn gymesur ac ymatebol i'w risg o aildroseddu ac i'r perygl o niweidio eraill.* |
| *6c)* | *Y Gymuned a'r Ddalfa, Cymru a Lloegr* | *I garcharorion â dedfrydau amhenodol, mae cwblhau ymyriadau yn dal i fod yn ffactor pwysig yn eu datblygiad ac ym mhenderfyniadau Byrddau Parôl ynghylch a ydynt yn gymwys i'w rhyddhau. Dylid felly parhau i flaenoriaethu carcharorion â dedfrydau amhenodol ar gyfer yr ymyriadau a'r gwasanaethau priodol.* |
| *6ch)* | *Y Gymuned a'r Ddalfa, Cymru a Lloegr* | *I droseddwyr a gafwyd yn euog o droseddau trais yn y cartref, dylai'r math o ddarpariaeth, a'i'i dwyster, gymryd i ystyriaeth y perygl o drais yn erbyn partner agos yn ogystal â'r perygl o aildroseddu.* |
| *6d)* | *Y Gymuned a'r Ddalfa, Cymru a Lloegr* | *I droseddwyr sydd wedi eu cael yn euog o ladrad a throseddau meddiangar eraill, dylid symud y ddarpariaeth o raglenni sgiliau gwybyddol i grwpiau eraill o droseddwyr lle byddant yn rhoi gwell canlyniadau.* |
| 7) | Y Gymuned a'r Ddalfa, Cymru a Lloegr | Dylid adolygu'r ddarpariaeth lle y bo y tu allan i leiafswm y gofynion a nodir ym Manyleb Gwasanaeth NOMS. |

| | | |
|---|---|---|
| 8) | Y Gymuned a'r Ddalfa, Cymru a Lloegr | Adnabod a rheoli troseddwyr a gafwyd yn euog dan y Deddfau Terfysgaeth (TACT), a throseddau'n gysylltiedig â TACT, troseddwyr eithafiaeth ddomestig, a'r rhai sydd mewn perygl o ymwneud ag eithafiaeth. Cwblhau asesiadau arbenigol (y Canllaw ar Risg Eithafiaeth) lle y bo'n briodol, a darparu ymyriadau a gwasanaethau arbenigol neu eraill, gyda phartneriaid, yn ôl risg ac angen y troseddwr. |
| 9) | Y Gymuned a'r Ddalfa, Cymru a Lloegr | Parhau i ddatblygu lleoedd cynaliadwy a'r gallu i gynnal cynadledda dioddefwr-troseddwr wyneb yn wyneb effeithiol (Cyfiawnder Adferol), gan weithio gyda phartneriaid. |
| 10) | Y Gymuned a'r Ddalfa Cymru a Lloegr | Sicrhau adnabyddiaeth effeithiol o droseddwyr sydd ag anableddau a/neu anawsterau dysgu a gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod y gwasanaethau yn gyfreithlon, yn weddus ac yn ymateb i anghenion. |
| 11) | Y Gymuned a'r Ddalfa Cymru a Lloegr | Sicrhau y defnyddir lleoedd carchar yn effeithlon drwy ddatblygu a gweithredu strategaethau mechnïaeth lleol a defnyddio HDC ar gyfer y troseddwyr priodol, gan gynnwys gwneud defnydd llawn o'r Gwasanaeth Llety a Chefnogaeth ar Fechnïaeth (BASS). |
| **Cydgomisiynu yn y Gymuned a'r Ddalfa, Lloegr yn unig** | | |
| 12) | Cydgomisiynu yn y Gymuned a'r Ddalfa, Lloegr yn unig | Gwell canlyniadau iechyd a chyfiawnder troseddol a rennir i garcharorion a throseddwyr yn y gymuned drwy alinio asesiadau anghenion, adnoddau a strategaethau comisiynu lleol gyda chomisiynwyr lleol newydd iechyd sylfaenol ac eilaidd, iechyd meddwl ac iechyd cyhoeddus yn cynnwys gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. |
| 13) | Cydgomisiynu yn y Gymuned a'r Ddalfa, Lloegr yn unig | Gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol i sicrhau fod troseddwyr a diffynyddion o oedolion sydd ag anghenion gofal cymdeithasol yn cael eu hasesu a'u cefnogi'n briodol er mwyn iddynt barhau i fyw gyda gwedduster ac mor annibynnol â phosibl wrth gwblhau eu gorchymyn neu eu dedfryd. |
| 14) | Cydgomisiynu yn y Gymuned a'r Ddalfa, Lloegr yn unig | Gweithio gydag awdurdodau lleol i hybu cynnwys teuluoedd troseddwyr, a sicrhau'r lles pennaf iddynt. |
| 15) | Cydgomisiynu yn y Gymuned a'r Ddalfa, Lloegr yn unig | Cefnogi gwasanaethau cydgysylltu a dargyfeirio lleol er mwyn sicrhau bod troseddwyr sy'n camddefnyddio sylweddau, troseddwyr sydd ag anhwylder meddwl a throseddwyr eraill sy'n fregus gan gynnwys rhai ag anabledd dysgu yn gallu cael y gwasanaethau priodol ar y pwynt cyswllt cynharaf posibl â'r system cyfiawnder troseddol. |
| 16) | Cydgomisiynu yn y Gymuned a'r Ddalfa, Lloegr yn unig | Parhau i wella'r mynediad at y llwybrau gwasanaethau newydd a'r rhai presennol i droseddwyr ag anhwylder personoliaeth sydd mewn perygl uchel o niweidio eraill (dynion) a risg uchel o aildroseddu (dynion a menywod) sy'n cael eu cydgomisiynu â Grwpiau Comisiynu Arbenigol y GIG, drwy gefnogi'r ddarpariaeth bresennol a darparu'r modd i gyflwyno gwasanaeth newydd ar draws y system. |
| 17) | Cydgomisiynu yn y Gymuned a'r Ddalfa, Lloegr yn unig | Alinio'r gwasanaethau â darparwyr Gwasanaeth Dysgu a Sgiliau Troseddwyr (OLASS 4) mewn carchardai yn dilyn ail gystadlu'r gwasanaeth a chefnogi mentrau i wneud carchardai yn lleoedd gwaith a gwneud gwasanaethau dysgu'r brif ffrwd yn fwy hygyrch i droseddwyr yn y gymuned. |
| 18) | Cydgomisiynu yn y Gymuned a'r Ddalfa, Lloegr yn unig | Atgyfnerthu gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod cefnogaeth a gwasanaethau yn hygyrch i droseddwyr i'w paratoi ar gyfer cyflogaeth yn y carchar ac yn y gymuned, a hwyluso mynediad ati. |
| **Cydgomisiynu yn y Gymuned a'r Ddalfa, Cymru a Lloegr** | | |
| 19) | Cydgomisiynu yn y Gymuned a'r Ddalfa, Cymru a Lloegr | Hwyluso'r ymgyrch gyfredol o'i gwneud yn orfodol i'r sawl sy'n gadael y carchar fynd ar Raglen Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau o'r diwrnod cyntaf. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cydgomisiynu yn y Gymuned a'r Ddalfa, Cymru yn unig** | | |
| 20) | Cydgomisiynu yn y Gymuned a'r Ddalfa, Cymru yn unig | Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'i hasiantaethau datganoledig i sicrhau bod gwasanaethau i droseddwyr a gomisiynir yn uniongyrchol gan NOMS a chyfrifoldebau datganoledig Llywodraeth Cymru yn gydnaws, er mwyn cael y canlyniadau gorau i droseddwyr, eu teuluoedd a chymunedau lleol. |
| **Yn y Ddalfa yn unig, Cymru a Lloegr** | | |
| 21) | Yn y Ddalfa yn unig, Cymru a Lloegr | Sicrhau bod ein defnydd o leoedd carcharu yn darparu'r trefniant o leoedd mwyaf effeithiol, ac yn cwrdd â gofynion strategol y Weinyddiaeth Gyfiawnder a gofynion cydgomisiynu a phartneriaid cyflenwi wrth leihau costau. |
| 22) | Yn y Ddalfa yn unig, Cymru a Lloegr | Cynyddu'r gwaith masnachol arwyddocaol a'r gwaith sy'n fuddiol yn economaidd y bydd carcharorion yn ymgymryd ag ef drwy'r holl ystad, a datblygu carchardai gwaith arbenigol lle bo hynny'n briodol. |
| 23) | Yn y Ddalfa yn unig, Cymru a Lloegr | Mynd i'r afael ag argaeledd cyffuriau a ffonau symudol mewn carchardai . |

**Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS)**
**Clive House**
**70 Petty France**
**LonSW1H 9EX**